# Safonau proffesiynol ymarfer, ymddygiad a moeseg ar gyfer therapi galwedigaethol

Gorffennaf 2026



Coleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol

## Am y cyhoeddwr

Mae Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (RCOT) yn is-gwmni sy'n eiddo llwyr i Gymdeithas Brydeinig y Therapyddion Galwedigaethol (BAOT) ac mae'n gweithredu fel elusen gofrestredig. Mae'n cynrychioli'r proffesiwn yn genedlaethol ac yn rhyngwladol ac yn cyfrannu'n eang at ymgynghoriadau polisi ledled y Deyrnas Unedig. Mae'r RCOT yn gosod y safonau proffesiynol ac addysgol ar gyfer therapi galwedigaethol, gan ddarparu arweinyddiaeth, arweiniad a gwybodaeth yn ymwneud ag ymchwil a datblygu, addysg, ymarfer a dysgu gydol oes.

I gael mwy o gyhoeddiadau a dogfennau i'w lawrlwytho am ddim ewch i

**rcot.co.uk**

# Safonau proffesiynol ymarfer, ymddygiad a moeseg ar gyfer therapi galwedigaethol

Coleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol

**Cyhoeddwyd gyntaf yn 2026**
Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (RCOT)
Phoenix House 106-114 Borough High Street
Llundain SE1 1LB
**rcot.co.uk**

Hawlfraint © Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol 2026

**Awdur:** **Royal College of Occupational Therapists**
**Ysgrifennwyd gan:** **Dr Jennifer Sutton (Arweinydd Prosiect), Dr Elizabeth Taylor (Rheolwr Prosiect)**
**Date for review:** **2031**

**Mae'r rhifyn hwn yn disodli pob rhifyn blaenorol o *Safonau proffesiynol ymarfer, ymddygiad a moeseg ar gyfer therapi galwedigaethol*.**

**Diolchiadau**
Cafodd y *Safonau proffesiynol ymarfer, ymddygiad a moeseg ar gyfer therapi galwedigaethol* yma eu datblygu mewn ymgynghoriad gydag aelodau'r RCOT, aelodau o'r cyhoedd, sefydliadau rhanddeiliaid a'r Cyngor (cyfeirnod moeseg IPE132/2025). Hoffai'r RCOT ddiolch i bawb a gymerodd ran yn y broses am eu cyfraniad gwerthfawr.

Cedwir pob hawl, yn cynnwys y cyfieithiad. Ni chaniateir atgynhyrchu, storio mewn system adalw na thrawsyrru unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, drwy unrhyw ddull neu fodd, electronig, mecanyddol, llungopïo, recordiad, sganio neu fel arall heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Goleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol, os na chytunir neu y dangosir fel arall. Ni chaniateir copïo heblaw ar gyfer defnydd personol a mewnol, i'r graddau a ganiateir gan gyfraith hawlfraint genedlaethol, neu dan delerau trwydded a gyhoeddwyd gan y sefydliad hawliau atgynhyrchu cenedlaethol perthnasol (megis Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint yn y Deyrnas Unedig). Dylid cyfeirio ceisiadau ar gyfer caniatâd am ddulliau eraill o gopïo, megis copïo ar gyfer dosbarthiad cyffredinol, ar gyfer dibenion hysbysebu neu hyrwyddo, ar gyfer creu gweithiau ar y cyd newydd, neu ar gyfer ail-werthu, at y Cyfarwyddwr Brand a Marchnata yn y cyfeiriad uchod.

Dylid cyfeirio ymholiadau eraill am y ddogfen hon at y Tîm Ymchwil ac Arloesedd: **hello@rcot.co.uk**

***Catalogio'r Llyfrgell Brydeinig mewn Data Cyhoeddiad***
Mae cofnod catalog ar gyfer y llyfr hwn ar gael o'r Llyfrgell Brydeinig.

Er y gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb, ni fydd Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol yn atebol am unrhyw golled neu ddifrod un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol fel canlyniad i ddefnyddio'r cyhoeddiad yma.

**ISBN 978-1-913496-15-9**

# Cynnwys

Geirfa ac iaith ........ 1

1. Cyflwyniad 2

1.1 Am y Safonau ........ 3
1.2 Ymrwymiad ar degwch, amrywiaeth a pherthyn ........ 3
1.3 Therapi galwedigaethol ar waith ........ 4
1.4 Yr hyn sy'n gwneud ymarferydd cymwys ........ 4
1.5 Deddfwriaeth, canllawiau, polisi a gweithdrefnau ........ 5

2. Sut i ddefnyddio'r Safonau a pham 6

2.1 Ar gyfer pwy mae'r Safonau ........ 7
2.2 Defnyddio'r Safonau i lywio eich ymarfer ........ 7
2.3 Pan na fedrwch gyflawni'r Safonau ........ 8
2.4 Hysbysu addysgwyr a dysgwyr cyn-cofrestru mewn addysg uwch ........ 9
2.5 Deall y berthynas gyda'r HCPC ........ 9
2.6 Monitro a datblygu eich ymarfer proffesiynol ........ 9

3. Egwyddorion a safonau – Hyrwyddo a diogelu llesiant a buddiannau'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth 10

3.1 Tegwch, amrywiaeth a pherthyn ........ 11
3.2 Cydsyniad ar sail gwybodaeth a galluedd meddyliol ........ 12
3.3 Perthnasoedd proffesiynol a phersonol a chadw ffiniau ........ 14

4. Egwyddorion a safonau – Cyfathrebu 15

4.1 Cyfathrebu gyda'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth ........ 16
4.2 Cydweithio ........ 16
4.3 Ymddygiad proffesiynol ar lwyfannau digidol, yn cynnwys rhwydweithiau rhannu cyfryngau a safleoedd rhwydweithio cymdeithasol ........ 18

5. Egwyddorion a safonau – Eich galluedd proffesiynol a ffitrwydd i ymarfer 19

5.1 Ffitrwydd i ymarfer – Therapydd galwedigaethol ........ 20
5.2 Eich cymhwysedd proffesiynol ........ 20
5.3 Cynnal ac ehangu eich galluedd ........ 21
5.4 Newid eich rolau a chyfrifoldebau ........ 22
5.5 Dysgu therapi galwedigaethol seiliedig ar ymarfer ar gyfer addysg cyn-cofrestru ........ 22

6. Egwyddorion a safonau – Dirprwyo 23

6.1 Dirprwyo i eraill ........ 24

7. Egwyddorion a safonau – Cyfrinachedd 25

7.1 Cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth ....26

8. Egwyddorion a safonau – Ymgysylltu gyda a rheoli risg 28

8.1 Ymgysylltu gyda risg ....29
8.2 Eich iechyd a ffitrwydd i ymarfer ....30

9. Egwyddorion a safonau – Rhoi adroddiad am bryderon am ddiogelwch 31

9.1 Pryderon am ddiogelwch y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth....32
9.2 Pryderon am broffesiynoldeb cydweithwyr....32
9.3 Pryderon am alluedd cydweithwyr....33

10. Egwyddorion a safonau – Bod yn agored, onest a dibynadwy 34

10.1 Dyletswydd gofal ....35
10.2 Llesiant....37
10.3 Proffesiynoldeb ....38
10.4 Uniondeb proffesiynol a phersonol....38
10.5 Ymddygiad proffesiynol....39
10.6 Elw neu fudd personol....39
10.7 Gwybodaeth a chynrychiolaeth ....40

11. Egwyddorion a safonau – Cadw cofnodion o'ch gwaith 41

11.1 Cadw cofnodion....42

12. Egwyddorion a safonau – Darpariaeth gwasanaeth 43

12.1 Canolbwyntio ar alwedigaeth....44
12.2 Pwysigrwydd dewis a gofal personoledig ....44
12.3 Eich rhesymeg broffesiynol....45
12.4 Mynediad i therapi galwedigaethol....45
12.5 Atgyfeiriad/cais am gymorth ac asesiad ....46
12.6 Ymyriad neu argymhellion ....46
12.7 Deilliannau – ansawdd, gwerth ac effeithlonrwydd....47
12.8 Datblygu a defnyddio sylfaen tystiolaeth y proffesiwn ....47
12.9 Cynaliadwyedd ac adoddau....48

13. Termau allweddol 50

14. Deddfwriaeth, polisïau a safonau – Pynciau allweddol 61

Cyfeiriadau 62

# Geirfa ac iaith

Mae rhestr o'r termau allweddol ar gael yn Adran 13. Gan ystyried ehangder y proffesiwn, sylweddolwn y gall fod angen rhywfaint o ddehongliad ar y termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon wrth weithredu'r Safonau yn eich cwmpas ymarfer neu osodiad gwaith unigol. Ysgrifennwyd pob datganiad fel disgrifiad o'r camau gweithredu/ymddygiad a ddisgwylir. Os na wnewch hynny, nid ydych yn cyrraedd y Safon er y gallech fod â rheswm y gellir ei gyfiawnhau dros wneud hynny.

## Trwy'r Safonau hyn i gyd:

- defnyddiwyd y term 'ymarferydd' i'ch dynodi chi fel yr unigolyn gweithredol, lle bynnag yr ydych yn gweithio a beth bynnag eich cwmpas a lefel ymarfer. Mae'n cynnwys therapyddion galwedigaethol, gweithwyr cymorth a dysgwyr therapi galwedigaethol, yn fyfyrwyr ac yn brentisiaid. Mae'n weithredol i ymarferwyr ym mhob rôl, yn cynnwys y rhai sydd mewn swyddi rheoli ac arwain, addysg, ymchwil, practis annibynnol, ymgynghoriaeth a chynghori, ac yn gweithio mewn diwydiant
- defnyddiwyd y term 'gweithlu therapi galwedigaethol' fel term ar y cyd ar gyfer yr holl ymarferwyr a ddiffinnir yn y paragraff uchod
- cafodd y gwaith a wnewch dros a gydag unigolion/grwpiau ei alw yn 'ymyriad', sy'n cynnwys darparu gwasanaethau fel gofal a chymorth, gwybodaeth, asesiad, argymhellion neu gyngor, cyfarwyddyd, goruchwyliaeth ac addysg
- defnyddiwyd y term 'pobl (neu'r rhai) sy'n defnyddio'r gwasanaeth' ar gyfer y rhai yr ydych yn darparu ymyriad iddynt. Gallant fod yn unigolion, teuluoedd a gofalwyr, grwpiau neu gymunedau. Mae 'pobl (neu'r rhai) sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cynnwys y rhai y mae'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) yn cyfeirio atynt fel 'defnyddwyr gwasanaeth'
- o fewn cyd-destun y ddogfen hon, mae'r term 'gwasanaeth' fel arfer yn cyfeirio at holl fewnbwn y therapi galwedigaethol a ddarparwch, yn hytrach na chyfeirio at adran neu gyfleuster therapi galwedigaethol
- er na chaiff hynny ei fanylu yn y Safonau unigol, mae gofalwyr a/neu aelodau rhwydwaith cymorth y person yn cymryd rhan weithredol lle'n briodol a gyda chytundeb yr unigolyn.

Adran 1

# Cyflwyniad

Mae’r adran hon yn disgrifio cyd-destun a statws y safonau proffesiynol hyn.



## 1.1. Am y Safonau

**1.1.1** Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (RCOT) yw'r unig gorff proffesiynol ar gyfer therapi galwedigaethol yn y Deyrnas Unedig. Rydym yn cefnogi, datblygu a gwarchod gwybodaeth parth y Deyrnas Unedig (arbenigedd, gwybodaeth a sgiliau) yn gysylltiedig â'r proffesiwn. Ni sydd yn gosod y safonau proffesiynol ac addysgol ar gyfer y proffesiwn ar draws y Deyrnas Unedig.

**1.1.2** Mae'r *Safonau proffesiynol ymarfer, ymddygiad a moeseg ar gyfer therapi galwedigaethol* hyn (y cyfeirir atynt fel 'y Safonau') yn diffinio set o safonau proffesiynol a gytunwyd sy'n llywio gwaith y gweithlu therapi galwedigaethol. Mae'r Safonau yn disgrifio lefel yr ymarfer a'r ffyrdd o feddwl y disgwyliwn i'n haelodau gydymffurfio â nhw ac y credwn y dylai pob aelod o'r gweithlu therapi galwedigaethol eu mabwysiadu.

**1.1.3** Mae'r Safonau yn gyffredinol ac yn weithredol i holl ddysgwyr ac ymarferwyr therapi galwedigaethol. Ble bynnag y gweithiwch a beth bynnag yw cwmpas a lefel eich ymarfer, dylech fedru cymhwyso egwyddorion sylfaenol y Safonau hyn i'ch gwaith.

**1.1.4** Fe wnaethom ddatblygu'r Safonau i alinio gyda Standards of conduct, performance and ethics (2024a), *Standards of proficiency for occupational therapists* (2023) a *Standards of continuing professional development* (2017) yr HCPC, gan gefnogi aelodau o'r gweithlu therapi galwedigaethol sydd wedi cofrestru gyda'r HCPC i ateb y gofynion ar gyfer cofrestru proffesiynol.

**1.1.5** Rydym yn cynhyrchu'r Safonau drwy ymgynghori gyda aelodau'r RCOT, y gweithlu therapi galwedigaethol ehangach yn y Deyrnas Unedig a sefydliadau rhanddeiliaid. Mae cyfarwyddiaeth Ymarfer, Arloesi ac Eiriolaeth y RCOT yn gyfrifol am gwblhau, diwygio a diweddaru'r Safonau. Rydym yn eu diwygio bob pum mlynedd, neu yn gynharach os oes angen.

## 1.2 Ymrwymiad ar degwch, amrywiaeth a pherthyn

**1.2.1** Mae gennym ymrwymiad dwfn i fod yn eiriolydd blaengar a chadarn o degwch a chyfiawnder cymdeithasol. Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn ei ddathlu o fewn ein proffesiwn, ein staff, ein aelodaeth, y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol a'r amgylchedd gwaith ehangach.

**1.2.2** Deallwn fod pawb yn unigryw ac y dylent gael eu trin gyda thegwch, tryloywder a heb wahaniaethu. Mae'r RCOT yn gwrthwynebu gwahaniaethu ac anghyfiawnder o unrhyw fath. Ymdrechwn i ddangos cynghreiriaeth effeithlon ac i fod yn dryloyw ac atebol. Mae tegwch, amrywiaeth a pherthyn yn ganolog i bopeth a wnawn. Mae'r Safonau yma yn adlewyrchu hynny, maent yn seiliedig ar egwyddorion tegwch, amrywiaeth a pherthyn ac yn seiliedig ar *Equity, Diversity and Belonging Strategy* (2024a) y RCOT. Nid yw tegwch, amrywiaeth a pherthyn yn eitem sy'n sefyll ar ben ei hun ac nid yw'n ychwanegiad. Mae egwyddorion hynny yn rhedeg drwy bob adran o'r safonau.

## 1.3 Therapi galwedigaethol ar waith

Mae therapi galwedigaethol yn hyrwyddo iechyd a llesiant drwy gefnogi cyfranogiad mewn galwedigaethau ystyrlon y mae pobl eu heisiau, eu hangen, neu y disgwylir iddynt eu gwneud. (WFOT 2025, cyfieithiad).

**1.3.1** Fel ymarferydd therapi galwedigaethol – p'un ai ydych yn therapydd galwedigaethol cofrestredig, dysgwr (myfyriwr neu brentis) neu weithiwr cymorth – rydych yn gosod galwedigaeth yn flaenllaw yn eich ymarfer. Rydych yn deall, neu'n datblygu eich dealltwriaeth o, sut y gall gallu person i gyflawni eu gweithgareddau a'u rolau dyddiol – eu perfformiad galwedigaethol – effeithio ar a chael ei effeithio gan eu profiadau neu amgylchiadau. Gall eich ymyriadau chi, neu'r cymorth a roddwch, ganolbwyntio ar y person, eu hamgylchedd neu'r alwedigaeth ei hun. Rydych yn galluogi'r bobl y gweithiwch gyda nhw i sicrhau newid a chyflawni y nodau galwedigaethol a ddewiswyd ganddynt. Mae hyn yn eich galluogi i gyflwyno ymyriad sydd â ffocws ar alwedigaeth ac sy'n canoli ar y person ym mhob gosodiad.

## 1.4 Yr hyn sy'n gwneud ymarferydd cymwys

**1.4.1** I gael eich ystyried yn ymarferydd therapi galwedigaethol cymwys neu alluog, bydd angen i chi arddangos cyfuniad o wybodaeth a sgiliau cydnabyddedig, ynghyd ag ymddygiad sy'n adlewyrchu ffordd broffesiynol o feddwl ar draws y pedwar Piler Ymarfer (RCOT 2021).

**1.4.2** Fel therapydd galwedigaethol cofrestredig, byddwch yn datblygu gwybodaeth a sgiliau drwy addysg broffesiynol, profiad a datblygiad proffesiynol parhaus. Fel dysgwr, byddwch yn datblygu'r rhain drwy eich rhaglen astudiaeth a lleoliadau ymarfer. Fel gweithiwr cymorth, byddwch yn datblygu'r rhain drwy eich hyfforddiant, profiad a datblygiad parhaus. Fodd bynnag, nid yw'r elfennau hyn ar eu pen eu hunain yn eich gwneud yn ymarferydd diogel, effeithlon a moesegol.

**1.4.3** Mae'n rhaid i'ch ymddygiad hefyd hyrwyddo a diogelu:

- llesiant a diogelwch pobl sy'n defnyddio eich gwasanaeth
- y cyhoedd yn ehangach
- enw da eich cyflogwyr a'ch proffesiwn

**1.4.4** Mae angen i chi fedru myfyrio ar eich ymarfer ac esbonio'r rhesymeg am eich gweithredoedd. Fel therapydd galwedigaethol, rydych yn ymarferydd gydag awtonomi ac yn bersonol gyfrifol am yr hyn a wnewch. Gallwch sicrhau eich galluedd eich hunan mewn ymarfer drwy eich gwybodaeth, dealltwriaeth a gweithrediad yr egwyddorion a'r safonau hyn.

## 1.5 Deddfwriaeth, canllawiau, polisi a gweithdrefnau

**1.5.1** Nid yw'r ddogfen hon yn dynodi pob darn o ddeddfwriaeth berthnasol, gan gydnabod fod gwahaniaethau rhwng pedair cenedl y Deyrnas Unedig a bod deddfwriaeth yn newid o bryd i'w gilydd.

**1.5.2** Mae'n rhaid i chi fod yn gwybod am a chydymffurfio gydag unrhyw ddeddfwriaeth gyfredol, canllawiau statudol, safonau arfer gorau a chanllawiau, polisïau a gweithdrefnau sy'n berthnasol i'ch lleoliad, cwmpas a lefel ymarfer. Caiff y meysydd eang allweddol o ddeddfwriaeth yn gysylltiedig â'r cyhoeddiad hwn eu rhestru yn Adran 14.

**1.5.3** Mae'r fersiwn hwn o'r *Safonau proffesiynol ymarfer, ymddygiad a moeseg ar gyfer therapi galwedigaethol* (2026) yn disodli rhifyn blaenorol o'r Safonau proffesiynol ar gyfer ymarfer, ymddygiad a moeseg therapi galwedigaethol (2021) a phob rhifyn blaenorol o'r Cod moeseg ac ymddygiad proffesiynol a'r Safonau proffesiynol ar gyfer ymarfer therapi galwedigaethol.

Adran 2

# Sut i ddefnyddio'r Safonau a pham

Mae'r adran hon yn disgrifio sut y gall y Safonau fod yn ddefnyddiol i chi.



## 2.1 Ar gyfer pwy mae'r Safonau

**2.1.1** Mae hon yn ddogfen gyhoeddus. Gellir ei defnyddio gan:

- ymarferwyr therapi galwedigaethol – i lywio ac archwilio eich ymarfer
- aelodau'r RCOT – byddwch yn cytuno i gydymffurfio â'r Safonau hyn pan ymunwch
- cyflogwyr a chomisiynwyr – i ddeall y safonau proffesiynol a ddisgwylir gan ymarferwyr therapi galwedigaethol
- y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol – i ddeall beth i'w ddisgwyl gan ymarferwyr
- addysgwyr a dysgwyr cyn-cofrestru – i ddeall y safonau gofynnol drwy gydol eu haddysg a'u bywyd proffesiynol
- HCPC – fel safonau priodol o ofal rhesymol wrth ystyried ffitrwydd i ymarfer.

**2.1.2** Mae'r Safonau yn berthnasol ac yn ddefnyddiol i bawb yn y gweithlu therapi galwedigaethol ar draws y Deyrnas Unedig, p'un ai ydynt yn aelodau o'r RCOT ai peidio.

**2.1.3** Mae aelodaeth o'r RCOT yn wirfoddol. Ni all fod yn ofyniad ar gyfer ymarfer nac yn faen prawf ar gyfer cyflogaeth. Fodd bynnag, mae aelodaeth yn rhoi buddion i gefnogi arferion gwaith diogel, effeithlon a moesegol a datblygiad proffesiynol parhaus.

## 2.2 Defnyddio'r Safonau i lywio eich ymarfer

**2.2.1** Mae'r ddogfen hon yn berthnasol i'ch ymarfer beunyddiol. Mae angen i chi ddeall ei chynnwys a sut i'w gweithredu yn eich gwaith. Mae'n adnodd gwybodaeth i'ch cyfeirio ac yn ffordd i archwilio eich ymarfer.

**2.2.2** Mae'r Safonau yn disgrifio'r ymarfer, ymddygiad a gwerthoedd hanfodol y mae gennych gyfrifoldeb am gydymffurfio â nhw bob amser. Mae'r RCOT yn disgwyl i'w aelodau weithio i safonau uchel, i wella'n barhaus ac i edrych am gyfleoedd i arwain a rhagori. Gellir cymryd y Safonau fel safonau priodol o ofal rhesymol, fel y'u diffiniwyd gan y corff proffesiynol, y gall yr HCPC, eich corff rheoleiddiol, gyfeirio atynt.

**2.2.3** Bydd cynnal a dangos y Safonau hyn yn eich helpu i:

- fod yn ymarferydd diogel, effeithlon a moesegol
- darparu gwasanaeth ansawdd uchel, seiliedig ar dystiolaeth a chynhwysol
- darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn neu bersonoledig
- esbonio a hyrwyddo eich gwaith drwy iaith gyda ffocws ar alwedigaeth
- gwneud y defnydd gorau a chynnal pob adnodd, yn cynnwys ariannol, dynol ac amgylcheddol
- cyflawni gofynion cofrestru'r HCPC.

**2.2.4** Gellir hefyd ddefnyddio'r Safonau i:

- lywio eich ymarfer a gwneud penderfyniadau dydd i ddydd
- cefnogi trafodaethau yn y gweithle gyda chydweithwyr neu'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth
- llywio penderfyniadau strategol yn ymwneud â therapi galwedigaethol
- rhoi sylfaen ar gyfer dialog gyda chomisiynwyr, cyllidwyr a phrynwyr gwasanaethau
- dangos gwerth a natur unigryw eich cyfraniad proffesiynol.

## 2.3 Pan na fedrwch gyflawni'r Safonau

**2.3.1** Y ddogfen hon, ynghyd â *Standards of conduct, performance and ethics* (2024a) yr HCPC a *Standards of proficiency for occupational therapists* (2023) yr HCPC, ddylai fod eich pwynt cyfeirio cyntaf os oes gennych ymholiad am ymarfer proffesiynol, ymddygiad neu foeseg. Mae'n rhaid i chi hefyd gyfeirio at a chydymffurfio â pholisi a/neu safonau lleol.

**2.3.2** Gallech ganfod yn achlysurol fod amgylchiadau lleol yn eich atal rhag cyflawni rhyw ran o'r Safonau hyn. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae angen i chi sicrhau eich bod yn cyflawni:

- eich cyfrifoldebau cyfreithiol
- eich dyletswydd gofal i'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth
- holl ofynion yr HCPC.

**2.3.3** Os ydych yn bryderus fod eich polisi lleol yn achosi i chi fethu cyflawni eich dyletswyddau cyfreithiol a phroffesiynol neu'n achosi risg i lesiant y rhai sy'n defnyddio eich gwasanaeth/au, chi eich hunan neu'ch cydweithwyr, mae'n rhaid i chi godi hynny gyda'ch cyflogwr. Cadwch gofnod o'ch pryderon a'ch gweithredoedd.

**Os ydych angen cyngor:**

- cysylltwch â'r RCOT
- ystyriwch siarad gyda'ch cynrychiolydd undeb lleol.

**2.3.4** Mewn unrhyw drafodion sifil neu droseddol, gall y Safonau hyn gael eu derbyn fel tystiolaeth o ymarfer rhesymol a derbyniol i gefnogi'r gŵyn neu'r amddiffyniad.

## 2.4 Hysbysu addysgwyr a dysgwyr cyn-cofrestru mewn addysg uwch

**2.4.1** Bydd darparwyr addysg yn defnyddio'r ddogfen hon drwy gydol rhaglen astudiaeth cyn cofrestru dysgwyr. Mae'r Safonau hyn yn hysbysu dysgwyr am y safonau ymarfer, ymddygiad a moeseg gofynnol y disgwylir i therapyddion galwedigaethol eu cynnal yn ystod eu bywydau academaidd a phroffesiynol.

**2.4.2** Bydd y Safonau hyn yn cefnogi'r addysg a gaiff dysgwyr, a maent yn weithredol o'r pwynt mynediad i'r rhaglen cyn-cofrestru hyd ddiwedd eu gyrfa broffesiynol. Maent yn cefnogi'r addysg a geir gan ddysgwyr ac yn ategu *Learning and development standards for pre-registration education* (RCOT 2026a).

**2.4.3** Mae'n ofynnol i ddarparwyr addysg sicrhau y cydymffurfir â'r Safonau i gynnal statws achrededig eu rhaglen cyn-cofrestru therapi galwedigaethol gyda'r RCOT.

## 2.5 Deall y berthynas gyda'r HCPC

**2.5.1** Prif amcan yr HCPC yw diogelu'r cyhoedd. Mae ganddo'r cyfrifoldeb pennaf am sicrhau fod pob gweithiwr iechyd proffesiynol perthnasol yn cyflawni safonau penodol er mwyn cael cofrestru i ymarfer yn y Deyrnas Unedig. Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n defnyddio teitl neu sy'n ymarfer fel 'therapydd galwedigaethol' yn y Deyrnas Unedig fod wedi cofrestru gyda'r HCPC.

**2.5.2** Os gwneir cwyn ffurfiol am therapydd galwedigaethol, bydd yr HCPC yn ystyried os cafodd ei safonau ei hun eu cyflawni. Mae'n rhaid i chi wybod am a chydymffurfio gyda gofynion yr HCPC.

**2.5.3** Mae eich hysbysu, eich cynghori a'ch cefnogi fel aelodau o'r proffesiwn yn swyddogaeth allweddol i'r RCOT. Nid rôl y RCOT yw barnu ffitrwydd ymarferydd i ymarfer. Cafodd y Safonau proffesiynol ymarfer, ymddygiad a moeseg ar gyfer therapi galwedigaethol eu datblygu yn unol â safonau'r HCPC (HCPC 2017, 2023, 2024a). Os defnyddiwch safonau proffesiynol RCOT i fonitro a chynnal eich ymarfer proffesiynol, byddant yn eich helpu i gyflawni gofynion y HCPC.

## 2.6 Monitro a datblygu eich ymarfer proffesiynol

**2.6.1** Mae defnyddio'r Safonau hyn fel meincnod yn eich galluogi i:

- fonitro a chynnal eich ymarfer proffesiynol
- craffu a gwella eich gwasanaeth
- casglu tystiolaeth ar eich datblygiad proffesiynol parhaus y gellir ei gynnwys yn eich portffolio, ynghyd â thystiolaeth arall o ddysgu a datblygu
- casglu data ar eich cyfer eich hun ac eraill sydd â diddordeb neu sydd wedi buddsoddi yn eich gwasanaeth.

**2.6.2** Mae adnoddau ar wefan RCOT i'ch helpu gyda hyn.

Adran 3

# Egwyddorion a safonau – Hyrwyddo a diogelu llesiant a buddiannau'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth

Dylid darllen yr adran hon ynghyd â *Standards of conduct, performance and ethics HCPC* (2024a): 1. Promote and protect the interests of people who access services and their carers.



## 3.1 Tegwch, amrywiaeth a pherthyn

**3.1.1** Rydych yn deall ac yn gweithredu egwyddorion tegwch, amrywiaeth a pherthyn yn eich ymarfer. Rydych yn cymryd atebolrwydd personol am sefydlu'r gwerthoedd hyn ac yn parhau i fod ag ymrwymiad i ddysgu parhaus er mwyn eu cryfhau.

**3.1.2** Rydych yn ymdrechu i hyrwyddo ymdeimlad o berthyn o fewn yr amgylchedd y gweithiwch ynddo, gan fod yn rhagweithiol wrth groesawu, grymuso, cefnogi a dathlu pobl eraill.

**3.1.3** Rydych yn croesawu, parchu a gwerthfawrogi amrywiaeth o bob math ac yn addasu gwasanaethau, cyfathrebu a gwneud penderfyniadau i ddiwallu anghenion unigolion a chymunedau amrywiol. Mae hyn yn cynnwys gwneud addasiadau rhesymol yn eich ymarfer a chefnogi eraill i wneud addasiadau rhesymol yn eu hymarfer.

**3.1.4** Eich ymagwedd yw gwarchod hawliau unigolion a chymryd cyfrifoldeb am gyfarch annhegwch yn eich ymarfer.

**3.1.5** Rydych bob amser yn gweithredu yn unol â hawliau dynol, deddfwriaeth ac er budd gorau yr unigolyn. Rydych yn deall ac yn gweithredu deddfwriaeth cydraddoldeb i'ch ymarfer.

**3.1.6** Mae'n rhaid i chi gydymffurfio gyda'r gyfraith a'r gofynion a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 a pheidio gwahaniaethu yn erbyn pobl yn seiliedig ar y nodweddion gwarchodedig canlynol: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gredo, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

**3.1.7** Rydych yn gweithredu i adnabod eich rhagfarnau mewnol eich hun ac yn ymrwymo i fyfyrio arnynt a'u herio.

**3.1.8** Yn eich ymarfer yr ydych yn:

1. cynnig mynediad teg i'r gwasanaeth ac yn cyflawni eich swydd heb duedd na rhagfarn
2. trin pawb gydag urddas a pharch fel aelodau cyfartal o gymdeithas, sydd â hawl i fwynhau'r un dewisiadau, hawliau, breintiau a mynediad i wasanaethau
3. ymdrechu i ddeall a diwallu anghenion y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth, gan gydnabod ac ystyried sut mae amrywiaeth, croestoriadaeth ac anghydraddoldeb mewn systemau yn llunio anghenion a dewisiadau pobl
4. parchu ac ymateb i athroniaeth bywyd pob unigolyn, gan gydnabod arwyddocâd posibl gredoau personol, ysbrydol, crefyddol a diwylliannol
5. rhoi sylw i a cheisio deall a diwallu neu ddewisiadau anghenion personol, ysbrydol, crefyddol a diwylliannol o fewn yr ymyriad a roddwch, gan ddilyn polisi lleol a chenedlaethol
6. dynodi, adrodd a herio rhwystrau i gynhwysiant
7. adnabod a myfyrio ar eich credoau a'ch gwerthoedd personol eich hun ac effaith bosibl unrhyw ragfarn bersonol. Nid ydych yn gosod eich system ffydd neu gredo eich hun ar unrhyw sefyllfa neu unigolyn yn y gwaith, ac nid ydych yn defnyddio eich credoau i ymosod ar hawliau a chredoau pobl eraill
8. gofyn am adborth, cymryd rhan weithgar mewn datblygiad proffesiynol a gweithredu gwybodaeth newydd i sicrhau fod eich ymarfer yn parhau'n gynhwysol, ystyriol ac yn ymateb i anghenion cymdeithasol esblygol.

## 3.2 Cydsyniad ar sail gwybodaeth a galluedd meddyliol

Dylid darllen yr adran hon mewn cysylltiad â *Consent principles yr HCPC* (2025a).

- Cyn bod unrhyw berson sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael unrhyw asesiad neu ymyriad, mae'n rhaid i chi gael cydsyniad ar sail gwybodaeth y person hynny. Nid yw'r ffaith fod person wedi cydsynio yn ddigonol. Dim ond os yw 'ar sail gwybodaeth' gywir y mae cydsyniad yn ddilys, gan olygu y cafodd yr holl wybodaeth berthnasol ei rhoi i'r person mewn ffordd a ddeallant. Gweler 3.2.4 am wybodaeth bellach am beth i'w wneud os yr effeithiwyd ar allu rhywun i roi cydsyniad ar sail gwybodaeth neu os yw hynny yn absennol.
- Bydd y broses o roi gwybodaeth yn dibynnu, ym mhob achos, ar asesiad o'r wybodaeth berthnasol i benderfyniad y person neilltuol ar yr adeg honno. Mae hyn yn cynnwys ystyried yr amgylcheddau a'r galwedigaethau sy'n bwysig i'r person, sut y gall yr ymyriad a gynigir effeithio ar eu gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon ac unrhyw risgiau sylweddol posibl eraill.
- Mae cael cydsyniad ar sail gwybodaeth yn ofyniad parhaus a gall fod angen ei ailadrodd os oes ymyriad mynych neu unrhyw newid yn yr ymyriad a gynigir; nid digwyddiad unwaith yn unig ydyw. Os na all yr unigolyn wneud hynny (ac os felly mae ystyriaethau pellach yn gymwys, fel yr amlinellir isod), hawl unrhyw unigolyn i benderfynu drostynt eu hunain p'un ai i dderbyn therapi galwedigaethol sydd bennaf.
- Mae'r egwyddor hon yn adlewyrchu hawl cyfreithiol unigolion i wneud penderfyniadau am eu corff, iechyd a llesiant eu hunain, ac mae'n rhan sylfaenol o arfer da. Gall ymarferydd therapi galwedigaethol nad yw'n parchu'r egwyddor hon fod yn agored i gamau cyfreithiol gan yr unigolyn, gweithredu gan yr HCPC neu hyd yn oed erlyniad troseddol.

**3.2.1** Gofynion ar gyfer cydsyniad dilys:

- i gydsyniad fod yn ddilys, mae'n rhaid iddo gael ei roi yn wirfoddol gan yr unigolyn. Mae'n rhaid iddynt gael yr holl wybodaeth sy'n berthnasol i'w penderfyniad ac mae'n rhaid iddynt fod â'r galluedd meddyliol i ddeall a chydsynio i'r ymyriad neu benderfyniad
- mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, canllawiau a chodau ymarfer cyfredol yng nghyswllt galluedd meddyliol a chydsyniad
- mae'n rhaid i chi roi gwybodaeth ddigonol mewn modd addas, i alluogi pobl i gydsynio ar sail gwybodaeth i unrhyw gam gweithredu neu ymyriad a gynigir yn ymwneud â nhw. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am sut mae'r ymyriad yn ymwneud â'u nodau gyda ffocws galwedigaeth a'r amgylcheddau y maent yn byw, gweithio a chymryd rhan ynddynt
- defnyddir pob dull posibl i alluogi unigolion i ddeall natur a diben y cam gweithredu neu ymyriad a gynigir, yn cynnwys unrhyw risgiau posibl ac unrhyw effaith ar eu gallu i gymryd rhan mewn galwedigaethau sy'n bwysig iddynt.

**3.2.2** Cefnogi gwneud penderfyniadau:

- cyn belled ag sy'n bosibl, rydych yn galluogi unigolion i wneud eu dewisiadau eu hunain. Lle mae eu gallu i roi cydsyniad ar sail gwybodaeth yn gyfyngedig neu'n absennol, rydych yn ceisio canfod a pharchu dewisiadau a dymuniadau'r unigolyn, gan geisio bob amser i weithredu er eu budd gorau. Rydych yn ystyried dewisiadau galwedigaethol y person, y rolau y maent yn eu gwerthfawrogi a'r

amgylcheddau sy'n bwysig iddynt wrth benderfynu ar eu budd gorau. Caiff pob penderfyniad a cham gweithredu a gymerir eu dogfennu.

- mae gan bobl yr hawl i wrthod neu ddileu cydsyniad ar gyfer unrhyw ymyriad ar unrhyw amser yn y broses therapi galwedigaethol. Rydych yn parchu dewisiadau person lle'n bosibl, hyd yn oed pan maent yn gwrthdaro gyda barn broffesiynol.
- rydych yn parchu dewisiadau plentyn dan 16 oed sy'n ddigon aeddfed i fedru gwneud eu meddwl eu hunain ar y mater sydd angen penderfyniad (cymhwysedd Gillick (Gillick v Awdurdod Iechyd Ardal Gorllewin Norfolk a Wisbech 1985))
- rydych yn cofnodi pryd a sut y caiff cydsyniad ei roi, ei wrthod neu ei ddileu, p'un ai'n llafar, drwy arwyddo neu yn ysgrifenedig.

**3.2.3** Asesu galluedd meddyliol

- tybir fod gan bob oedolyn dros 16 oed alluedd os nad oes tystiolaeth i'r gwrthwyneb
- pan fo amheuaeth am alluedd meddyliol person, mae'n rhaid i chi asesu eu gallu i wneud penderfyniad yng nghyswllt y ddarpariaeth therapi galwedigaethol a gynigir, yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol. Mae hyn yn golygu fod angen i chi asesu eu galluedd mewn proses dau gam. Yn gyntaf ystyriwch y pedwar cwestiwn canlynol:
  - o a yw'r person yn deall pa wybodaeth a roddwch iddynt?
  - o a allant gadw'r wybodaeth er mwyn ffurfio barn?
  - o a allant bwyso a mesur yr wybodaeth a dod i benderfyniad ar sail gwybodaeth?
  - o a allant gyfathrebu'r penderfyniad hwnnw i chi?
- yn ail, mae'n rhaid i chi ddynodi os na all y person wneud y penderfyniad drostynt eu hunain oherwydd amhariad neu darfu yn y ffordd y mae eu meddwl neu ymennydd yn gweithio
- os dewch i'r casgliad nad oes gan berson alluedd ar gyfer y therapi galwedigaethol a gynigir, rydych yn cofnodi eich penderfyniad a'r rheswm dros eich casgliadau.

**3.2.4** Pan nad oes gan y person y galluedd meddyliol i gydsynio:

- os nad oes gan y person sy'n defnyddio'r gwasanaeth y galluedd meddyliol i gydsynio, mae'n rhaid i chi ddefnyddio'r gyfraith a pholisi lleol. Ni allwch roi unrhyw ymyriad os nad oes:
  - o gennych gydsyniad gan rywun sydd ag awdurdod cyfreithiol i benderfynu fod yr ymyriad er budd gorau y person (tebyg i atwrneiaeth arhosol am iechyd a llesiant neu ddirprwy iechyd a llesiant) neu'r llys
  - o rhag-benderfyniad neu orchymyn llys ar gyfer yr ymyriad
  - o penderfyniad budd gorau wedi ei wneud ar ran y person, gan ystyried yr holl wybodaeth angenrheidiol ac yn dilyn ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid perthnasol, fel sydd ei angen gan ddeddfwriaeth, canllawiau a pholisi
- nid ydych yn gorfodi na'n rhoi pwysau ar berson i dderbyn ymyriad, ond eu hysbysu am unrhyw risg neu ganlyniad posibl gwrthod ymyriad. Ar gyfer rhai heb alluedd meddyliol, mae angen penderfyniad 'budd gorau'. Wrth wneud penderfyniadau budd gorau, rydych yn ystyried dewisiadau hysbys y person, eu nodau gyda ffocws galwedigaeth, y gweithgareddau a werthfawrogant a'r amgylcheddau sy'n bwysig iddynt.

## 3.3 Perthnasoedd proffesiynol a phersonol a chadw ffiniau

- Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod yn cadw perthynas broffesiynol gyda'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth

**3.3.1** Rydych yn cynnal perthynas therapiwtig briodol mewn ffordd dryloyw, moesegol a diduedd gyda'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

- Rydych yn cadw perthynas broffesiynol a safonau uchel o ofal mewn sefyllfaoedd lle mae tensiwn neu gynnen.
- Nid ydych yn dechrau ar berthynas a fyddai'n amharu ar eich crebwyll a'ch gwrthrychedd a/neu a fyddai'n achosi triniaeth fanteisiol neu anfanteisiol unrhyw unigolyn neu grŵp.
- Nid ydych yn dechrau ar berthynas sy'n camfanteisio ar unigolion yn rhywiol, corfforol, emosiynol, ariannol, cymdeithasol neu mewn unrhyw ffordd arall.
- Nid ydych yn camfanteisio ar unrhyw berthynas broffesiynol ar gyfer unrhyw fath o fudd personol.
- Rydych yn osgoi dechrau ar berthynas bersonol agos gyda'r person yr ydych yn darparu'r gwasanaeth iddo/iddi tra'ch bod yn gyfrifol am ddarparu therapi galwedigaethol iddynt. Rydych bob amser yn cadw perthynas broffesiynol briodol.

**3.3.2** Os oes risg y gall unrhyw ffiniau proffesiynol gael eu torri, rydych yn datgelu ac yn trafod hyn gyda'ch rheolwr neu berson dynodedig eraill. Yn yr amgylchiadau hyn, rydych yn trosglwyddo gofal am yr unigolyn i weithiwr proffesiynol priodol.

**3.3.3** Cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, nid ydych yn dechrau ar berthynas broffesiynol gyda rhywun y mae gennych eisoes berthynas bersonol agos gyda nhw. Mae hyn yn cynnwys perthnasau, cymdogion, partneriaid a chyfeillion.

- Lle nad oes unrhyw ddewis arall rhesymol, gwnewch bob ymdrech i barhau'n broffesiynol a gwrthrychol pan fyddwch yn gweithio gydag unigolyn yr ydych yn ei adnabod neu wedi ei adnabod.
- Yn yr amgylchiadau hyn, caiff hyn ei ddatgelu a'i drafod gyda'ch rheolwr neu berson dynodedig arall a'i nodi mewn cofnodion perthnasol. Mae hyn ar gyfer eich gwarchod chi yn gymaint ag ar gyfer y person sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Adran 4

# Egwyddorion a safonau – Cyfathrebu

Dylid darllen yr adran hon mewn cysylltiad â *Standards of conduct, performance and ethics* (2024a) yr HCPC: 2. Communicate appropriately and effectively.



## 4.1 Cyfathrebu gyda'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth

**4.1.1** Mae eich iaith a'ch arddull a dull o gyfathrebu bob amser yn broffesiynol a chwrtais.

**4.1.2** Rydych yn cyfathrebu'n glir, agored ac effeithlon, gan roi gwybodaeth mewn ffurf hygyrch sy'n rhwydd i'r rhai yr ydych yn cyfathrebu â nhw ei deall. Rydych yn addasu eich arddull a dulliau cyfathrebu eich hun i ddiwallu anghenion a dewisiadau cyfathrebu y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydych yn ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael i ddileu rhwystrau i gyfathrebu'n effeithlon.

**4.1.3** Rydych yn gwrando'n weithredol ar y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth, i sicrhau y caiff eu llais ei glywed ac yn cefnogi gwneud penderfyniadau ar y cyd.

**4.1.4** Rydych yn cyfleu diben therapi galwedigaethol a'r rheswm dros unrhyw ymyriad, gan alluogi cydsyniad ar sail gwybodaeth a hyrwyddo dealltwriaeth o'r proffesiwn.

**4.1.5** Rydych yn ystyried arwyddocâd ac effaith posibl cyfathrebu llafar a heb fod yn llafar, gan barhau'n sensitif i effaith bosibl amrywiaeth, profiadau trawstoriadol ac anghenion y rhai yr ydych yn cyfathrebu â nhw.

**4.1.6** Lle'n bosibl a phriodol, rydych yn hwyluso cyfathrebu yn newis iaith neu iaith gyntaf yr unigolyn.

**4.1.7** Caiff trafodaethau yn gysylltiedig â'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth eu cynnal mewn ffordd sy'n cynnal eu hurddas a'u preifatrwydd.

**4.1.8** Rydych yn cymryd rhan yn glir ac yn gywir mewn adroddiadau ffurfiol ac anffurfiol.

**4.1.9** Rydych yn dogfennu eich cyfathrebu lle mae angen cofnod. Dylai hyn gynnwys amserlenni priodol os ydych yn nodi pryderon am ddiogelwch neu ddiogelu.

## 4.2 Cydweithio

**4.2.1** Rydych yn rhagweithiol wrth geisio adeiladu a chynnal perthynas broffesiynol gadarnhaol.

**4.2.2** Rydych yn parchu cyfrifoldebau, arferion a rolau pobl eraill y gweithiwch gyda nhw.

**4.2.3** Rydych yn ystyried, parchu a gwerthfawrogi tegwch o fewn y gweithle ac amrywiaeth eich cydweithwyr, gan gydnabod eu hasedau a'u safbwyntiau unigryw.

**4.2.4** Rydych bob amser yn gweithredu gydag uniondeb ac yn dryloyw ac yn atebol yn eich gweithredoedd tuag at eich cydweithwyr.

**4.2.5** Rydych yn arddangos cynghreiriaeth drwy wrthwynebu hiliaeth, gwahaniaethu ac anghyfiawnder.

**4.2.6** Mae bwlio, aflonyddu ac ymddygiad sy'n gwahaniaethu yn annerbyniol ac amhroffesiynol. Nid ydynt yn cyrraedd y Safonau y mae gennych gyfrifoldeb i gydymffurfio â nhw.

**4.2.7** Os ydych yn profi neu'n gweld bwlio, aflonyddu a/neu ymddygiad gwahaniaethol, rydych yn codi eich pryderon gyda pherson priodol arall ac yn dilyn polisi statudol a lleol. Rydych yn dilyn materion o gonsyrn yr ydych wedi rhoi adroddiad arnynt, gan eu huwchgyfeirio os oes angen.

**4.2.8** Rydych yn rhoi sylw i ac yn cydymffurfio â'ch dyletswydd gyfreithiol i wneud datgeliad gwarchodedig pan mae gennych gred resymol o gamymddwyn yn y budd cyhoeddus. Mae camymddwyn yn cynnwys troseddau, torri rhwymedigaeth gyfreithiol, risgiau difrifol i iechyd a diogelwch, difrod i'r amgylchedd, camweinyddiad cyfiawnder neu guddio gweithredoedd o'r fath (HCPC 2019).

**4.2.9** Rydych yn gweithio gydag eraill o fewn eich maes arbenigedd i hyrwyddo gwybodaeth, sgiliau ac ymarfer diogel ac effeithlon.

**4.2.10** Rydych yn cydweithio gyda neu'n atgyfeirio at weithwyr proffesiynol eraill pan yn briodol, gan ddefnyddio eu sgiliau i gynyddu canlyniadau ymyriad i'r eithaf.

**4.2.11** Rydych yn ymgynghori gyda darparwyr gwasanaeth eraill pan mae angen gwybodaeth, arbenigedd a/neu gefnogaeth ychwanegol.

**4.2.12** Rydych yn atgyfeirio person sy'n defnyddio'r gwasanaeth at weithiwr proffesiynol priodol arall os yw'r dasg y tu allan i'ch lefel neu gwmpas ymarfer.

**4.2.13** Rydych yn cymryd rhan mewn cydweithio ac adolygu rhyngbroffesiynol ac amlasiantaeth fel sy'n briodol i'ch lleoliad, fel y caiff gwasanaethau sydd wedi eu cydlynu'n dda ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn eu darparu'n effeithlon.

**4.2.14** Rydych yn gweithio ac yn cyfathrebu gyda chydweithwyr a chynrychiolwyr sefydliadau eraill i sicrhau diogelwch a llesiant pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau.

**4.2.15** Rydych yn cyfathrebu'n effeithlon gyda'r rhai sy'n gyfrifol am oruchwylio eich gwaith, p'un ai yw hynny drwy strwythurau rheoli llinell, trefniadau goruchwylio neu berthynas arall gydag atebolrwydd proffesiynol.

**4.2.16** Rydych yn cefnogi anghenion dysgu a datblygu therapyddion galwedigaethol y gweithiwch gyda nhw sydd eu gyrfa gynnar, gan hwyluso eu pontio o addysg i ymarfer, gan gefnogi datblygu eu hunaniaeth broffesiynol ac ymdeimlad o berthyn. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn fersiynau cyfredol *Early career standards for occupational therapists* (RCOT 2026b).

## 4.3 Ymddygiad proffesiynol ar lwyfannau digidol, yn cynnwys rhwydweithiau rhannu cyfryngau a safleoedd rhwydweithio cymdeithasol

**4.3.1** Rydych yn ystyried ac y cymryd cyfrifoldeb am y ffordd y defnyddiwch rwydweithiau rhannu cyfryngau, safleoedd rhwydweithio cymdeithasol a llwyfannau digidol eraill. Rydych bob amser yn cynnal ffiniau proffesiynol ac yn gwarchod cyfrinachedd y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

**4.3.2** Nid yw eich ymddygiad a chynnwys ar rwydweithiau rhannu cyfryngau, safleoedd rhwydweithio cymdeithasol a phlatfformau digidol eraill yn tanseilio hyder yn eich ymarfer proffesiynol na'r proffesiwn therapi galwedigaethol.

**4.3.3** Pan fyddwch yn defnyddio llwyfannau digidol yn cynnwys rhwydweithiau rhannu cyfryngau a safleoedd rhwydweithio cymdeithasol, rydych yn cydnabod eich bod yn cyflwyno eich hun drwy eiriau a delweddau, i grŵp eang o bobl.

**4.3.4** Rydych yn deall os yw'n hysbys eich bod neu os cewch eich adnabod fel ymarferydd, y gall eich geiriau a delweddau gael eu gweld fel bod yn cynrychioli neu'n gymwys i'r proffesiwn therapi galwedigaethol a/neu eich cyflogwr/sefydliad.

**4.3.5** Pan fyddwch yn rhannu gwybodaeth ar lwyfannau digidol mae'n rhaid i chi sicrhau cywirdeb drwy wiriadau rhesymol, cadw ymddygiad proffesiynol ac osgoi iaith sy'n dirmygu cydweithwyr, sefydliadau, pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau neu gymunedau.

**4.3.6** I gael canllawiau pellach ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, gweler *Information for registrants, guidance on social media* HCPC (HCPC 2024b).

Adran 5

# Egwyddorion a safonau – Eich galluedd proffesiynol a ffitrwydd i ymarfer

Dylid darllen yr adran hon ar y cyd â *Standards of conduct, performance and ethics* yr HCPC (2024a):
3. Work within the limits of your knowledge and skills.



## 5.1 Ffitrwydd i ymarfer – Therapydd galwedigaethol

**5.1.1** Mae'r HCPC yn cyfeirio at 'ffitrwydd i ymarfer' ymarferydd, sy'n golygu fod gennych y sgiliau, yr wybodaeth, y profiad, y cymeriad a'r iechyd i ymarfer yn ddiogel ac effeithlon (HCPC 2025b). I barhau'n gymwys, mae angen i chi:

- gadw eich sgiliau a'ch gwybodaeth yn gyfredol a pherthnasol i lefel a chwmpas eich ymarfer
- gweithio o fewn eich maes cymhwysedd
- bod yn ymwybodol a gofalu am eich iechyd a'ch lles corfforol a meddyliol eich hun
- gweithredu gydag onestrwydd ac uniondeb, gan drin y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth gyda pharch ac urddas (HCPC 2025b).

Dylech gyfeirio at *Standards of conduct, performance and ethnics* (2024a) HCPC a *Standards of proficiency for occupational therapists* (2023) HCPC i gael mwy o wybodaeth.

## 5.2 Eich cymhwysedd proffesiynol

**5.2.1** Dim ond ymyriadau yr ydych yn gymwys amdanynt drwy eich addysg broffesiynol, dysgu parhaus a/neu brofiad yr ydych yn eu darparu. Mae'n rhaid i'r rhain fod o fewn eich cymhwysedd proffesiynol, yn addas ar gyfer anghenion y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac yn cyfeirio at eich telerau cyflogaeth/contract.

**5.2.2** Mae gennych wybodaeth, sgiliau a phrofiadau digonol i ffurfio barn broffesiynol ddibynadwy, addas i'ch lefel cyfrifoldeb a chwmpas ymarfer.

**5.2.3** Rydych yn gofyn am gyngor neu'n atgyfeirio i weithiwr proffesiynol arall pan nad oes gennych wybodaeth a/neu sgiliau digonol. Rydych yn atgyfeirio at weithiwr proffesiynol os yw'r gwasanaeth sydd ei angen tu allan i'ch cwmpas ymarfer.

**5.2.4** Rydych yn rhoi sylw i ac yn cydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth, canllawiau a safonau cyfredol sy'n berthnasol i lefel a chwmpas eich ymarfer a'ch man gwaith.

**5.2.5** Rydych yn hysbysu eich hunan am ddatblygiadau cyfredol o fewn y proffesiwn, perthnasol i lefel a chwmpas eich ymarfer, gan roi'r rhain ar waith lle'n briodol ac yn bosibl. Mae hyn yn cynnwys ymchwil gyfredol, arloesedd a chyhoeddiadau a adolygir gan gymheiriaid. Os dymunwch ehangu eich cwmpas ymarfer, rydych yn dilyn hyfforddiant pellach i ddiweddaru eich cymwyseddau, gwybodaeth a phrofiad.

**5.2.6** Wrth ddefnyddio deallusrwydd artiffisial (AI) yn eich ymarfer, rydych gwneud defnydd cyfrifol o AI ac yn dilyn polisi a chanllawiau lleol, gan gydnabod ei botensial i gyfoethogi ymarfer tra'n aros yn feirniadol ymwybodol o'i gyfyngiadau, yn cynnwys camgymeriadau a thueddiadau posibl. Rydych yn cadw cymhwysedd mewn dulliau heb fod yn defnyddio AI i sicrhau parhad, diogelwch ac ansawdd gofal ym mhob amgylchiad. Rydych yn cadw cyfrifoldeb am adolygu a dilysu unrhyw gynnwys a gynhyrchir gan AI cyn ei ddefnyddio neu ei ledaenu. Rydych chi, fel yr ymarferydd therapi galwedigaethol, yn parhau'n atebol am yr holl gynnwys, hyd yn oes os cafodd ei gynhyrchu gan AI.

## 5.3 Cynnal ac ehangu eich galluedd

**5.3.1** Rydych yn cynnal safonau uchel yn barhaus yn eich gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad proffesiynol ar draws y pedwar Piler Ymarfer: Ymarfer Proffesiynol; Hwyluso Dysgu; Arweinyddiaeth; a Thystiolaeth, Ymchwil a Datblygu (RCOT 2021).

**5.3.2** Rydych yn ystyried ac yn gweithredu'r *Principles for continuing professional development and lifelong learning in health and social care* (Gweithgor Rhyngbroffesiynol y DU ar Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus a Dysgu Gydol Oes 2022). Mae'r pum egwyddor yn dweud y dylai datblygiad proffesiynol parhaus a dysgu gydol oes:

1. fod yn gyfrifoldeb pob person a bod eich cyflogwr yn ei wneud yn bosibl ac yn ei gefnogi;
2. bod o fudd i ddefnyddwyr gwasanaeth;
3. gwella ansawdd darpariaeth gwasanaeth;
4. bod yn gytbwys ac yn berthnasol i faes ymarfer neu gyflogaeth pob person; a
5. chael ei gofnodi a dangos yr effaith ar faes ymarfer pob person.

**5.3.3** Rydych yn parhau'n gyfredol gydag unrhyw ddatblygiadau proffesiynol, deddfwriaeth, canllawiau a safonau sy'n berthnasol i gwmpas eich ymarfer.

**5.3.4** Rydych yn cwblhau unrhyw hyfforddiant statudol a gorfodol sydd ei angen ar gyfer eich gwaith.

**5.3.5** Fel therapydd galwedigaethol rydych yn ceisio ymestyn eich galluedd ar draws pob un o'r pedwar Piler Ymarfer, drwy astudiaeth ôl-raddedig, y gall fod â dyfarniad ar ei chyfer ai peidio.

**5.3.6** Rydych yn ceisio cynnal ac ehangu eich galluoedd mewn ymarfer gwrthwahaniaethol a gwrth-hiliol.

**5.3.7** Rydych yn cadw cofnod parhaus, cyfredol a chywir o'ch gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus, yn ôl gofynion y HCPC.

**5.3.8** Fel ymarferydd, rydych yn derbyn a/neu ddarparu goruchwyliaeth a gwerthusiad proffesiynol rheolaidd, lle defnyddir myfyrio beirniadol i adolygu ymarfer. Gall hyn gael ei ddarparu'n lleol neu drwy gefnogaeth braich-hir.

**5.3.9** Gallwch ddangos bod gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus wedi ychwanegu at ansawdd eich ymarfer proffesiynol a'ch darpariaeth gwasanaeth.

**5.3.10** Rydych yn cefnogi dysgu a datblygiad cydweithwyr, gan rannu eich gwybodaeth, sgiliau a phrofiad.

**5.3.11** Rydych yn cadw'n gyfredol gyda sgiliau digidol, gan ddeall cwmpas, buddion ac effaith bosibl technolegau digidol newydd i sicrhau y gallwch wneud y defnydd gorau o'r hyn sydd ar gael.

**5.3.12** Rydych yn ceisio cymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil, arloesi a gwella ansawdd sy'n briodol i lefel a chwmpas eich ymarfer.

**5.3.13** I gael mwy o wybodaeth am ddatblygiad proffesiynol parhaus, gweler *Career Development Framework* (2021) RCOT, *Continuing professional development and your registration guidance* (2017) HCPC a *Principles for continuing professional development and lifelong learning in health and social care* (2022) Gweithgor Rhyngbroffesiynol y Deyrnas Unedig ar Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus a Dysgu Gydol Oes.

## 5.4 Newid eich rolau a chyfrifoldebau

**5.4.1** Os ydych yn ceisio neu y gofynnir i chi weithio mewn meysydd lle mae gennych lai o brofiad, byddwch yn sicrhau fod gennych sgiliau a gwybodaeth digonol ar gyfer ymarfer diogel ac effeithlon, a bod gennych fynediad i oruchwyliaeth a chymorth priodol.

**5.4.2** Rydych yn asesu unrhyw risgiau posibl mewn cymryd gwahanol rôl neu gyfrifoldebau, i sicrhau eich bod yn darparu gwasanaeth diogel.

**5.4.3** Os gofynnir i chi wneud tasgau ychwanegol (tebyg i gamu i fyny neu lanw bwlch dros gydweithiwr sy'n absennol), dim ond ar ôl trafod, gan roi ystyriaeth i gynllunio ychwanegol, cymorth, goruchwyliaeth a/neu ddysgu a gofynion datblygu y caiff dyletswyddau o'r fath eu gwneud. Os na fedrwch gytuno i gais o'r fath, rydych yn cysylltu â'ch cynrychiolydd undeb lleol a/neu'r RCOT i gael cyngor a chymorth lle mae angen.

**5.4.4** Rydych yn sicrhau y darperir cefnogaeth a chyfleoedd dysgu digonol i'ch galluogi i wneud unrhyw dasgau neu gyfrifoldebau ychwanegol yn ddiogel ac effeithlon.

**5.4.5** Rydych yn codi yn ffurfiol unrhyw bryderon a all fod gennych am eich galluedd i wneud unrhyw dasgau neu gyfrifoldebau ychwanegol.

## 5.5 Dysgu therapi galwedigaethol seiliedig ar ymarfer ar gyfer addysg cyn-cofrestru

**5.5.1** Rydych yn cymryd cyfrifoldeb proffesiynol am ddarparu cyfleoedd dysgu seiliedig ar ymarfer ar gyfer dysgwyr therapi galwedigaethol cyn cofrestru, gan hyrwyddo diwylliant dysgu o fewn y gweithle dan biler addysg ymarfer (addysgu a hwyluso dysgu).

**5.5.2** Rydych yn darparu amgylchedd dysgu diogel, cefnogol a chynhwysol ar gyfer dysgwyr sy'n wrth-wahaniaethol, gwrth-ormesol ac sy'n hyrwyddo ymdeimlad o berthyn.

**5.5.3** Rydych yn adnabod yr angen am ddatblygiad a dysgu personol i gyflawni rôl addysgwr ymarfer a dilyn hyfforddiant priodol i gefnogi dysgwyr yn gynhwysol.

**5.5.4** Fel addysgwr ymarfer, rydych yn rhoi profiad ymarfer ar gyfer dysgwyr sy'n cydymffurfio â'r Safonau hyn, fersiwn gyfredol *Learning and development standards for pre-registration education* (RCOT 2026a) ac sy'n gydnaws gyda'r cam y mae'r dysgwr arno o ran addysg.

**5.5.5** Fel addysgwr ymarfer, mae gennych ddealltwriaeth glir o'r rôl a'r cyfrifoldebau ar eich cyfer chi eich hun, y dysgwr a'r darparydd addysg.

**5.5.6** Mae gwybodaeth bellach yn fersiynau cyfredol *Learning and development standards for pre-registration education* (RCOT 2026a) a *Career development framework* (RCOT 2021).

Adran 6

# Egwyddorion a safonau – Dirprwyo

Dylid darllen yr adran hon ar y cyd â *Standards of conduct, performance and ethics* HCPC (2024a):
4. Delegate appropriately.



## 6.1 Dirprwyo i eraill

**6.1.1** Pan fyddwch yn dirprwyo ymyriadau neu weithdrefnau eraill, byddwch yn sicrhau fod gan y sawl yr ydych yn dirprwyo iddynt y sgiliau, gwybodaeth a phrofiad i'w cyflawni yn ddiogel ac yn effeithlon.

**6.1.2** Rydych yn rhoi goruchwyliaeth a chymorth digonol i'r unigolyn yr ydych wedi dirprwyo tasg/au iddynt.

**6.1.3** Er fod pob ymarferydd cofrestredig yn weithwyr proffesiynol gydag awtonomi, yn gyfrifol am eu hymarfer a'u barn broffesiynol eu hunain, rydych chi, fel yr ymarferydd sy'n dirprwyo, yn cadw'r atebolrwydd pennaf am unrhyw gamau gweithredu a gafodd eu dirprwyo.

**6.1.4** Rydych yn dirprwyo i eraill yn unol â pholisïau lleol ar lywodraethiant ac atebolrwydd, gan ddilyn y broses a gytunwyd ar gyfer gwneud penderfyniadau, cyfarwyddyd, monitro ac adborth.

Adran 7

# Egwyddorion a safonau – Cyfrinachedd

Dylid darllen yr adran hon ynghyd â *Standards of conduct, performance and ethics* HCPC (2024a): 5: Respect confidentiality.



## 7.1 Cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth

**7.1.1** Rydych yn cydymffurfio â fersiynau cyffredinol Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (UK GDPR), Deddf Diogelu Data 2018 a Deddf Data (Defnydd a Mynediad) yn eich holl brosesu gwybodaeth/data.

**7.1.2** Mae cyfrinachedd yn ddyletswydd gyfreithiol a moesegol bwysig, ond nid yw'n absoliwt. Mae cydbwysedd rhwng cyfrifoldeb proffesiynol a chyfreithiol i barchu a diogelu cyfrinachedd y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth a rhannu gwybodaeth, mewn amgylchiadau cyfyngedig, ar gyfer llesiant a gwarchod yr unigolyn neu'r cyhoedd yn ehangach.

**7.1.3** Mae'r un mesurau diogelu a chyfyngiadau yn weithredol i wybodaeth/data a gaiff eu storio a'u trosglwyddo drwy gopi caled neu'n ddigidol ac wrth gyfathrebu gydag eraill drwy unrhyw gyfrwng, yn cynnwys cymunedau a rhwydweithiau rhithiol/ar-lein.

**7.1.4** Rydych yn ymgyfarwyddo gyda'ch dyletswyddau dan ddeddfwriaeth, rheoliadau a pholisi lleol.

**7.1.5** Rydych bob amser yn diogelu gwybodaeth gyfrinachol lafar, ysgrifenedig neu ddigidol (data), yn ymwneud â'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

**7.1.6** Dylai trafodaethau gyda neu'n ymwneud â'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth gael eu cadw mewn lleoliad ac mewn dull addas i ddiogelu eu hawl i gyfrinachedd a phreifatrwydd.

**7.1.7** Dim ond yn yr amgylchiadau canlynol y gallwch rannu gwybodaeth gyfrinachol:

- os ydych yn esbonio'r rheswm dros ei rhannu a gofyn am gydsyniad lle mae cydsyniad yw'r sail gyfreithiol briodol; neu
- os oes gennych sail gyfreithiol, ddilys am rannu gwybodaeth gyfrinachol, a dynodi hynny cyn rhannu, a'ch bod yn cofnodi'r penderfyniad
- os oes angen hynny ar gyfer gofal diogel ac effeithlon y person sy'n defnyddio'r gwasanaeth
- os yw hynny er budd gorau y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth o fewn fframwaith Caldicott Principles 2013 (National Data Guardian 2020). Rhaid cyfyngu unrhyw wybodaeth a gaiff ei rhannu i'r hyn sy'n angenrheidiol a dim ond ei datgelu i'r unigolion hynny sydd ag 'angen gwybod' dilys
- os ydych yn rhannu gwybodaeth gyfrinachol berthnasol lle mae cyfiawnhad cyfreithiol (er enghraifft drwy statud neu orchymyn llys) neu lle ystyrir ei fod er budd yr unigolyn neu'r budd cyhoeddus er mwyn atal niwed difrifol neu i ddiogelu diogelwch y cyhoedd (yn cynnwys mewn cyd-destunau diogelu lle caiff rhannu amserol ei gefnogi gan ganllawiau statudol). Dylech ddilyn polisi lleol a hysbysu'r unigolyn lle'n bosibl.

**7.1.8** Lle mae unigolyn wedi gwrthwynebu rhannu gwybodaeth benodol, caiff hyn ei barchu os nad oes gofyniad cyfreithiol clir i rannu.

**7.1.9** Rydych yn cydymffurfio gyda pholisi lleol a chenedlaethol yng nghyswllt cyfrinachedd a diogelwch data wrth storio, symud a throsglwyddo gwybodaeth, ym mhob fformat a chyfrwng, bob amser, gan ddim ond eu gwneud ar gael i'r rhai sydd â hawl neu angen dilys i'w gweld.

**7.1.10** Rydych yn rhoi mynediad i unigolion i'w cofnodion eu hunain yn unol â deddfwriaeth berthnasol a chanllawiau/polisi cyfredol (lleol a chenedlaethol).

**7.1.11** Rydych yn cael ac yn cofnodi cydsyniad cyn defnyddio deunydd gweledol, llafar, ysgrifenedig neu ddigidol yn ymwneud ag unigolion ar gyfer dibenion ehangach (tebyg i addysgu), yn unol â pholisïau lleol. Mae'n rhaid arsylwi cyfrinachedd a dewis y person yn yr amgylchiadau hyn.

**7.1.12** Rydych yn sicrhau fod systemau AI yn cydymffurfio gyda rheoliadau diogelu data cyn eu defnyddio. Nid ydych yn mewnbynnu gwybodaeth bersonol, y gellid ei hadnabod neu sensitif i offer AI os nad ydynt yn cyflawni gofynion eich sefydliad o ran diogelwch a phreifatrwydd. Rydych yn cydymffurfio gyda'r holl bolisïau a gweithdrefnau lleol yn ymwneud ag AI.

Gweler hefyd Adran 12 yng nghyswllt cyfrinachedd mewn ymchwil.

Adran 8

# Egwyddorion a safonau – Ymgysylltu gyda a rheoli risg

Dylid darllen yr adran hon ynghyd â *Standards of conduct, performance and ethics* HCPC (2024a) 6. Manage risk



## 8.1 Ymgysylltu gyda risg

**8.1.1** Fel ymarferydd, eich rôl chi, cyn belled ag sy'n bosibl, yw galluogi pobl i oresgyn y rhwystrau sy'n eu hatal rhag gwneud y gweithgareddau sydd o bwys iddynt, i fanteisio ar gyfleoedd a pheidio gweld risg fel rhwystr arall.

**8.1.2** Rydych yn croesawu ac yn ymgysylltu â risg, gan ei asesu a'i reoli mewn partneriaeth gyda'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

**8.1.3** Rydych yn galluogi pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth i gymryd y risgiau a ddewisant ac i gyflawni'r nodau a ddewiswyd ganddynt mor ddiogel ag sy'n rhesymol ymarferol.

**8.1.4** Pan nad oes gan unigolyn y galluedd meddyliol i wneud dewisiadau neilltuol, nid yw risg o reidrwydd yn cyfyngu penderfyniadau budd gorau, yn arbennig pan fyddant yn rhoi ystyriaeth i ddewisiadau a dymuniadau a fynegwyd gan yr unigolyn. Mae angen asesiad risg a hefyd benderfyniad budd gorau.

**8.1.5** Lle caiff gofal ar gyfer y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei rannu gyda neu ei drosglwyddo i ymarferydd neu wasanaeth arall, rydych yn cydweithredu gyda nhw i sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant yr unigolyn.

**8.1.6** Rydych yn cyflawni gofynion deddfwriaeth iechyd a diogelwch perthnasol a gweithdrefnau a pholisi gweithredu lleol, gan alluogi pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth i sicrhau'r perfformiad galwedigaethol ac awtonomi gorau posibl yn eu bywydau. Mae'r gofynion hyn yn cynnwys iechyd a diogelwch, rheoli risg, symud, codi a chario a rheoli, offer diogelu personol a rheoli risg digidol.

**8.1.7** Rydych yn ystyried y risgiau cyn gweithredu offer AI yn eich ymarfer. Rydych yn cadw terfynau clir ar gyfer defnydd AI ac mae gennych gynlluniau wrth gefn ar gyfer methiant systemau. Nid ydych yn defnyddio AI ar gyfer penderfyniadau tu hwnt i'ch cymhwysedd neu heb drosolwg priodol. Rydych yn cadw cyfrifoldeb am adolygu a dilysu unrhyw gynnwys a gynhyrchir gan AI cyn ei ddefnyddio neu ei ledaenu, yn unol â pholisi ac arweiniad lleol.

**8.1.8** Rydych yn cymryd gofal rhesymol o'ch iechyd a diogelwch eich hun ac eraill y gall yr hyn a wnewch neu na wnewch effeithio arnynt. Nid ydych yn gosod iechyd a diogelwch y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu eich cydweithwyr mewn risg na'n caniatáu i rywun arall wneud hynny. Mae'r egwyddorion yn parhau'r un fath p'un ai yw'r niwed posibl i bobl, sefydliadau neu'r amgylchedd.

**8.1.9** I'r graddau mwyaf sydd o fewn eich rheolaeth, rydych yn:

- sefydlu a chynnal amgylchedd ymarfer diogel, yn cynnwys wrth deithio neu yn y gymuned
- sefydlu a chynnal arferion gwaith diogel, a
- sefydlu a chynnal systemau digidol diogel, yn cynnwys wrth deithio neu yn y gymuned.

**8.1.10** Rydych yn hysbysu'r rhai sydd â chyfrifoldeb am oruchwylio eich gwaith pan fyddwch yn dynodi risg nad yw o fewn eich rheolaeth.

**8.1.11** Rydych yn monitro, adolygu a, lle bo angen, ddiwygio unrhyw sefyllfa sy'n cynnwys risg.

**8.1.12** Rydych yn sicrhau eich bod yn parhau'n gyfredol yn eich holl hyfforddiant statudol i sicrhau ymarfer diogel, yn cynnwys rheoli risg, iechyd a diogelwch, diogelu, technegau symud a chodi a chario a diogelu data.

**8.1.13** Lle'n briodol, rydych yn sicrhau eich bod chi a'r rhai yr ydych yn gyfrifol amdanynt wedi eich hyfforddi, yn gymwys ac yn ddiogel wrth ddewis a defnyddio offer perthnasol, gan roi sylw i weithdrefnau lleol.

**8.1.14** Gall amgylchiadau olygu fod angen i chi fod yn hyblyg yn yr hyn a wnewch. Mae angen i chi ddefnyddio eich barn broffesiynol i barhau'n ddiogel yn eich ymarfer a bob amser weithio er budd gorau y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r sefydliadau y gweithiwch iddynt yn gyfrifol am sicrhau y cewch eich cefnogi i wneud hyn.

## 8.2 Eich iechyd a ffitrwydd i ymarfer

**8.2.1** Rydych yn gyfrifol am fonitro a bod yn rhagweithiol wrth ofalu am eich iechyd a'ch llesiant corfforol a meddyliol eich hun.

**8.2.2** Rydych yn rhagweithiol wrth asesu os bydd newidiadau i'ch iechyd a llesiant corfforol a/neu feddyliol yn cael effaith negyddol ar eich gallu i ymarfer mewn ffordd ddiogel ac effeithlon. Rydych yn ceisio help neu gyngor ar y cyfle cyntaf os yw eich iechyd corfforol neu feddyliol yn dod yn gonsyrn, gan ddilyn polisïau a gweithdrefnau lleol. Os ydych yn ansicr am eich gallu i hunanasesu effaith newidiadau i'ch iechyd a llesiant corfforol a/neu feddyliol, byddwch yn gofyn am asesiad gan weithiwr proffesiynol gofal a iechyd priodol.

**8.2.3** Rydych yn gwneud newidiadau i sut ydych yn ymarfer, neu'n rhoi gorau i ymarfer, os gall eich iechyd fod yn effeithio ar eich gallu i gyflawni eich swydd yn alluog ac yn ddiogel. Mae unrhyw newidiadau i'ch ymarfer o fewn eich cwmpas ymarfer ac yn hyrwyddo diogelwch ac effeithlonrwydd.

**8.2.4** Rydych yn hysbysu eich cyflogwr/awdurdod priodol a'r HCPC am unrhyw gyflwr iechyd neu bersonol y credwch a all effeithio ar eich gallu i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithlon, os na fedrwch addasu eich gwaith yn rhesymol neu os oes angen i chi roi'r gorau i ymarfer (HCPC 2024c).

Mae mwy o wybodaeth ar hysbysu'r corff rheoleiddiol ar gael yn *Guidance on health and character* (HCPC 2024c).

Adran 9

# Egwyddorion a safonau – Rhoi adroddiad am bryderon am ddiogelwch

Dylid darllen yr adran hon ynghyd â *Standards of conduct, performance and ethics* (2024a) HCPC:
7. Report concerns about safety.



## 9.1 Pryderon am ddiogelwch y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth

9.1.1 Os oes gennych bryderon am ddiogelwch neu lesiant y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydych yn cymryd camau gweithredu priodol ac yn rhoi adroddiad yn brydlon am bryderon, gan ddilyn pob polisi a gweithdrefn lleol ar ddiogelu.

9.1.2 Rydych yn dilyn i fyny ar bryderon yr ydych wedi rhoi adroddiad arnynt, gan eu huwchgyfeirio os oes angen.

Gweler hefyd Adran 8 – Engaging with and managing risk.

## 9.2 Pryderon am broffesiynoldeb cydweithwyr

**9.2.1** Rydych yn codi eich pryderon gyda rheolwr llinell neu berson arall priodol ac yn dilyn polisi statudol a lleol, gan gadw diogelwch pawb sy'n gysylltiedig os:

- dewch i wybod fod rhywbeth wedi mynd o'i le neu fod rhywun wedi dioddef niwed fel canlyniad i weithredoedd neu ddiffyg gweithredu gan gydweithiwr
- dewch i wybod am unrhyw gamymarfer bwriadol, ymddygiad troseddol neu weithgaredd amhroffesiynol, p'un ai gan bersonél therapi galwedigaethol neu staff eraill, neu
- eich bod yn gwybod am unrhyw fath o wahaniaethu, bwlio, aflonyddu a/neu fygylu yn y gweithle, p'un ai at gydweithwyr, dysgwyr neu'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

**9.2.2** Mae'r wybodaeth a roddwch yn wrthrychol, perthnasol, seiliedig ar dystiolaeth lle'n bosibl ac wedi ei chyfyngu i'r mater o bryder.

**9.2.3** Rydych yn dilyn i fyny ar bryderon yr ydych wedi eu codi, gan eu huwchgyfeirio os oes angen.

**9.2.4** Os ydych yn rhoi tystiolaeth mewn ymchwiliad neu achos llys yn ymwneud ag unrhyw esgeulustod neu gamymddygiad honedig gan gydweithiwr, bydd y dystiolaeth a roddwch yn wrthrychol ac y gellir ei phrofi.

**9.2.5** Rydych yn annog ac yn cefnogi eraill i roi adroddiad am bryderon, heb byth rwystro neb rhag codi pryderon.

## 9.3 Pryderon am alluedd cydweithwyr

**9.3.1** Os oes gennych sail resymol dros gredu y gall ymddygiad neu berfformiad proffesiynol cydweithiwr fod yn ddiffygiol mewn safonau galluedd proffesiynol, rydych yn hysbysu eu rheolwr llinell neu berson priodol arall yn gyfrinachol. Mae hyn yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i, pan:

- mae perfformiad cydweithiwr yn ddiffygiol iawn
- mae ganddynt broblem iechyd sy'n amharu ar eu cymhwysedd i ymarfer, neu
- eu bod yn ymarfer mewn ffordd sy'n rhoi'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu gydweithwyr mewn risg.

**9.3.2** Wrth hysbysu rheolwr llinell neu berson priodol arall am unrhyw bryderon, mae'r wybodaeth yn wrthrychol, perthnasol, y gellir ei phrofi lle'n bosibl ac yn gyfyngedig i'r mater o gonsyrn.

**9.3.3** Os gofynnir i chi am ail farn gan berson sy'n defnyddio'r gwasanaeth, cyfyngir hynny i'r achos dan sylw a ni chaiff ei ymestyn i alluedd cyffredinol unrhyw ymarferydd arall.

**9.3.4** Rydych yn dilyn i fyny ar bryderon yr ydych wedi rhoi adroddiad amdanynt, gan eu huwchgyfeirio os oes angen.

**9.3.5** Ni ddylai teyrngarwch fyth eich atal rhag codi pryderon.

Adran 10

# Egwyddorion a safonau – Bod yn agored, onest a dibynadwy

Dylid darllen yr adran hon ynghyd â *Standards of conduct, performance and ethics* (2024a):
8. Be open when things go wrong,
a 9. Be honest and trustworthy.



## 10.1 Dyletswydd gofal

**10.1.1** Rydych yn gwybod beth yw cwmpas eich dyletswydd gofal a byddwch yn ei weithredu yn briodol.

**10.1.2** Eich dyletswydd gofal yw eich cyfrifoldeb i weithredu mewn ffordd sy'n sicrhau na chaiff anaf, colled neu niwed ei achosi yn ddiofal neu'n fwriadol i'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol, aelodau eu rhwydwaith cymorth, cydweithwyr a'r cyhoedd.

**10.1.3** Wrth benderfynu p'un ai a gyflawnwyd y ddyletswydd gofal, y safon y caiff eich gwaith ei asesu arni yw:

safon person cyffredin medrus yn gweithredu ac yn proffesu bod â'r sgil arbenigol hwnnw. Nid yw'n rhaid i berson feddu ar y sgil arbenigol uchaf; mae'n ddeddf sydd wedi hen ennill ei phlwyf ei bod yn ddigonol os yw 'y person' yn gweithredu sgil cyffredin [person] cyffredin cymwys sy'n ymarfer y grefft neilltuol honno. [Bolam v Pwyllgor Rheoli Ysbyty Friern 1957, cyfieithiad).

Mewn geiriau eraill, nid yw'n rhaid i chi fod yr ymarferydd gorau sydd, ond mae'n rhaid i chi fod yn ymarfer ar safon ymarferydd rhesymol gymwys. Nid yw unrhyw nodweddion personol, megis lefel profiad, fel arfer yn effeithio ar y safonau a ddisgwylir.

**10.1.4** Mae'r ddyletswydd gofal yn bodoli o'r foment i chi gymryd rhyw fath o gyfrifoldeb am ofal unigolyn. Er enghraifft, pan gaiff unigolyn ei dderbyn am therapi galwedigaethol neu'n cytuno ac yn dechrau derbyn gwasanaeth.

**10.1.5** Rydych yn cyflawni eich dyletswydd gofal drwy gyflawni eich dyletswyddau proffesiynol i safon ymarferydd rhesymol gymwys, o ran eich gwybodaeth, sgiliau a galluoedd.

**10.1.6** Gallech fod yn torri eich dyletswydd gofal os gellir dangos eich bod wedi methu cyflawni eich dyletswyddau proffesiynol i'r safon a ddisgwylid gan ymarferydd therapi galwedigaethol rhesymol gymwys.

**10.1.7** Os honnir eich bod, wrth berfformio eich dyletswyddau, wedi torri eich dyletswydd gofal i'r person sy'n defnyddio'r gwasanaeth, mae'n amddiffyniad da dangos y byddai corff cyfrifol o ymarferwyr tebyg wedi gweithredu yn yr un modd. Dyma Egwyddor Bolam.

**10.1.8** Fodd bynnag, dim ond os gellir dangos fod sail resymegol i'r farn y dibynnwyd arni a'i bod yn dangos parch, yn gyfrifol ac yn rhesymol ynddi ei hun y bydd Egwyddor Bolam yn amddiffyniad ynddi ei hun. Dyma Egwyddor Bolitho (Bolitho v Awdurdod Iechyd City a Hackney 1998).

**10.1.9** Eich cyfrifoldebau dan eich dyletswydd gofal:

- cadw eich gwybodaeth, sgiliau a galluoedd yn gyfredol
- darparu gwasanaeth sydd o fewn eich cymhwysedd proffesiynol, sydd yn addas ar gyfer anghenion y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac o fewn yr ystod gweithgareddau a ddiffiniwyd gan eich rôl broffesiynol

- cadw cofnod gywir o'r ymyriad a roddwch fel rhan o'ch dyletswydd gofal
- bod â ac yn cofnodi rhesymeg broffesiynol amlwg ar gyfer y penderfyniadau a wnewch a'r ymyriad therapi galwedigaethol a roddwch
- diogelu gwybodaeth gyfrinachol, heblaw lle mae rheswm y medrir ei gyfiawnhau dros ddatgeliad
- os ydych yn defnyddio AI, eich bod yn adolygu cynnwys a gynhyrchwyd gan AI am duedd posibl, yn arbennig yng nghyswllt nodweddion gwarchodedig, ffactorau diwylliannol neu dybiaethau a allai achosi anfantais i unigolion a grwpiau. Byddwch yn sicrhau fod AI yn gwella yn hytrach na disodli eich barn broffesiynol a pherthnasoedd therapiwtig
- sicrhau y cymerir pob cam rhesymol i sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant unrhyw berson sy'n ymwneud ag unrhyw weithgaredd yr ydych yn gyfrifol amdano. Gallai hyn fod yn berson yn defnyddio'r gwasanaeth, gofalwr, aelod arall o staff, dysgwr neu aelod o'r cyhoedd
- sicrhau fod unrhyw un yr ydych yn dirprwyo gwaith iddynt yn gymwys i'w wneud mewn modd diogel a bod ganddynt y sgiliau priodol
- pan ystyriwch nad yw safonau llesiant, diogelwch a gofal yn cael eu cyflawni, eich bod yn codi eich pryderon gyda pherson priodol
- pan mae person gyda galluedd meddyliol yn cael eu rhyddhau neu'n rhyddhau eu hunain o'ch gwasanaeth neu'n dewis peidio dilyn eich argymhellion, nid yw eich dyletswydd gofal yn dod i ben ar unwaith. Mae'n rhaid i chi:
    - sicrhau eu bod yn gwybod am unrhyw risgiau posibl yn deillio o'u dewis
    - cymryd camau rhesymol i sicrhau eu diogelwch
    - atgyfeirio'r unigolyn neu roi gwybodaeth am asiantaeth arall, os yn briodol
    - hysbysu eraill perthnasol, gyda chydsyniad os yn bosibl, yn arbennig os oes elfen o risg yn dal i fod
    - trefnu'r camau dilynol, os oes angen ac os oes cydsyniad
    - cydymffurfio gyda'r holl weithdrefnau lleol angenrheidiol ar gyfer rhyddhau
    - cofnodi hyn yn y dogfennau perthnasol, ynghyd ag unrhyw asesiad o alluedd meddyliol os oes angen.

Byddwch wedyn wedi cyflawni eich dyletswydd gofal.

## 10.2 Llesiant

**10.2.1** Mae gan bawb hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Mae'r rhain yn cynnwys yr hawl i ddiogeliad cymdeithasol, safon digonol o fyw a llesiant corfforol a meddyliol.

**10.2.2** Rydych yn anelu i weithredu er budd gorau pawb sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r rhai yr ydych yn gweithio â nhw, bob amser, i sicrhau eu llesiant, gan optimeiddio eu hiechyd, llesiant a diogelwch.

**10.2.3** Rydych bob amser yn cydnabod hawliau dynol person ac yn gweithredu er eu budd gorau, heb wahaniaethu o unrhyw fath.

**10.2.4** Rydych yn galluogi'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth i gadw eu hunigoliaeth, hunan-barch, urddas, preifatrwydd, diogelwch, awtonomi ac uniondeb.

**10.2.5** Rydych yn cymryd camau gweithredu priodol i hyrwyddo iechyd a llesiant cadarnhaol yn y gweithle (yn cynnwys iechyd corfforol ac iechyd meddwl), arferion gwaith diogel ac amgylchedd diogel.

**10.2.6** Nid ydych yn cymryd rhan yn na'n cefnogi ymddygiad sy'n achosi unrhyw ofid meddyliol neu gorfforol diangen. Mae ymddygiad o'r fath yn cynnwys esgeulustod a bod yn ddi-hid am boen.

**10.2.7** Rydych yn gwneud pob ymdrech i beidio gadael y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth mewn poen, anghysur neu ofid diangen yn dilyn ymyriad. Defnyddir barn a phrofiad proffesiynol i asesu lefel y poen, gofid neu risg, a chymryd camau priodol os oes angen. Gofynnir am gyngor lle mae angen.

**10.2.8** Rydych yn cefnogi'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth os ydynt eisiau codi mater o gonsyrn neu gŵyn am y gofal neu wasanaeth a gawsant. Rydych yn cyfathrebu'n onest, yn agored ac mewn modd proffesiynol, gan dderbyn adborth a thrin materion o gonsyrn gan gydweithio lle maent yn digwydd. Gofynnir am gyngor pan fo angen a dilynir polisi lleol.

**10.2.9** Mae gennych ddyletswydd broffesiynol o ddidwylledd. Pan aiff rhywbeth o chwith fel canlyniad i'r hyn a wnaethoch neu'r hyn na wnaethoch:

- rydych yn agored, onest a didwyll
- rydych yn cymryd camau ar unwaith i unioni pethau
- rydych yn hysbysu'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth yr effeithiwyd arnynt, neu lle nad oes gennych fynediad uniongyrchol iddynt, rydych yn hysbysu'r clinigydd arweiniol sy'n gyfrifol am eu gofal fod rhywbeth wedi mynd o'i le
- rydych yn rhoi adroddiad onest o'r hyn a ddigwyddodd, yn cynnwys yr hyn sy'n hysbys ac nad yw'n hysbys eto
- rydych yn ymddiheuro i'r rhai yr effeithiwyd arnynt
- rydych yn hysbysu eich rheolwr/cyflogwr/sefydliad contractio ac yn dilyn polisi a gweithdrefnau lleol
- nid ydych yn wybyddus yn rhwystro ymarferydd arall rhag cyflawni eu dyletswydd o ddidwylledd
- nid ydych yn rhoi gwybodaeth na'n gwneud datganiadau anonest am ddigwyddiad, gyda'r bwriad o gamarwain
- rydych yn gwybod am, ac yn gweithredu ar, eich cyfrifoldeb i warchod a diogelu buddiannau pobl fregus yr ydych yn dod i gysylltiad â hwy yn eich rôl gwaith.

**10.2.10** Os ydych yn gweld, neu os oes gennych reswm dros gredu fod unigolyn wedi profi ymddygiad neu esgeulustod yn eich gweithle neu unrhyw osodiad arall sy'n eu peryglu, eu sarhau, eu cam-drin, yn gwahaniaethu yn eu herbyn neu sy'n camfanteisio arnynt, rydych yn datgan eich consyrn. Rydych yn hysbysu rheolwr llinell neu berson dynodedig arall, gan geisio cydsyniad yr unigolyn lle'n bosibl, a defnyddio gweithdrefnau lleol lle maent ar gael (gweler hefyd Adran 9 – Rhoi adroddiad am bryderon am ddiogelwch).

**10.2.11** Os ydych yn gyflogwr neu'n gyflenwr personél, rydych yn rhoi adroddiad i'r gwasanaeth datgelu a gwahardd cenedlaethol perthnasol am unrhyw berson a gafodd eu symud o'r gwaith oherwydd eu hymddygiad, lle gall yr ymddygiad hwnnw fod wedi cyflawni unrhyw un o'r meini prawf ar gyfer gwahardd yr unigolyn rhag gweithio gyda phlant neu oedolion mewn risg.

**10.2.12** Rydych yn codi consyrn gyda'r corff cofrestru perthnasol os yw ymarfer, ymddygiad neu iechyd ymarferydd yn ymddangos i fod yn risg i ddiogelwch y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth, cydweithwyr neu'r cyhoedd, lle nad yw gweithdrefnau lleol wedi datrys y mater. Lle mae dysgwyr (myfyrwyr neu brentisiaid) yn gysylltiedig, rydych hefyd yn hysbysu'r darparydd addysg perthnasol.

## 10.3 Proffesiynoldeb

**10.3.1** Aiff proffesiynoldeb tu hwnt i fod yn ymarferydd galluog. Mae'n ymwneud â sut mae ymarferydd yn cynrychioli eu hunain, eu cyflogwr a'u proffeswin i eraill. Mae'n ffordd o feddwl, gwerthoedd a chymhellion sy'n sylfaen i'r ymddygiad a'r rhyngweithio a welir.

**10.3.2** Gellir barnu bod eich ymddygiad yn annerbyniol pan nad yw llesiant y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn greiddiol iddo, neu pan mae'n tanseilio hyder neu ymddiriedaeth yn y gwasanaeth, sefydliad neu broffesiwn. Gall hyn fod tra'ch bod yn eich rôl waith neu'r tu allan i'ch rôl waith.

## 10.4 Uniondeb proffesiynol a phersonol

**10.4.1** Rydych yn gweithredu gydag onestrwydd ac uniondeb bob amser. Rydych yn dryloyw ac yn atebol yn y ffordd yr ydych yn trin y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth, cydweithwyr a dysgwyr; gan wrthwynebu hiliaeth, gwahaniaethu ac anghyfiawnder.

**10.4.2** Nid ydych yn cymryd rhan mewn unrhyw ymddygiad neu weithgaredd troseddol neu sydd fel arall yn anghyfreithlon neu'n amhroffesiynol, sy'n debygol o niweidio hyder y cyhoedd ynddoch chi neu eich proffesiwn.

**10.4.3** Nid ydych yn ymgymryd ag unrhyw weithgareddau proffesiynol tra'ch bod dan ddylanwad alcohol, cyffuriau neu sylweddau meddwol eraill.

**10.4.4** Rydych yn hysbysu'r HCPC a/neu eich cyflogwyr os y ceir chi'n euog o drosedd, yn derbyn rhyddhad amodol am drosedd neu os ydych yn derbyn rhybudd gan yr heddlu.

**10.4.5** Os ydych yn therapydd galwedigaethol cofrestredig, rydych yn hysbysu'r HCPC os gosodwyd unrhyw gyfyngiad ar eich ymarfer, neu os cawsoch eich atal o'ch gwaith neu eich diswyddo gan gyflogwr neu sefydliad tebyg, oherwydd pryderon am eich ymddygiad neu gymhwysedd. Os ydych yn aelod, mae'n rhaid i chi hefyd hysbysu'r RCOT.

**10.4.6** Os ydych yn therapydd galwedigaethol cofrestredig, rydych yn hysbysu'r HCPC neu os yw sefydliad rheoleiddio iechyd neu ofal cymdeithasol arall wedi gwneud canfyddiad neu wedi gweithredu yn eich erbyn. Os ydych yn aelod, mae'n rhaid i chi hefyd hysbysu'r RCOT.

**10.4.7** Rydych yn cydweithredu gydag unrhyw ymchwiliad neu ymholiad ffurfiol i'ch ymddygiad proffesiynol neu gymhwysedd eich hun, ymddygiad neu gymhwysedd gweithiwr arall neu ofal neu driniaeth person sy'n defnyddio'r gwasanaeth, lle'n briodol.

**10.4.8** Rydych yn onest gyda'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau am pryd a sut y defnyddir AI yn eu gofal. Rydych yn cael y cydsyniad priodol ac yn parchu dewisiadau unigol, yn cynnwys yr hawl i wrthod cynnwys AI yn eu gofal.

## 10.5 Ymddygiad proffesiynol

**10.5.1** Rydych yn atebol am eich gweithredoedd a'ch ymddygiad, o fewn a hefyd ymaith o'r gweithle.

**10.5.2** Rydych yn cadw ffiniau proffesiynol bob amser.

**10.5.3** Rydych yn ystyried ac yn cymryd cyfrifoldeb am:

- yr argraff a'r effaith a wnewch ar eraill, gan ymddwyn a chyflwyno eich hun mewn modd proffesiynol tra byddwch yn eich rôl gwaith neu astudio;
- eich ymddygiad tu allan i'r rôl gwaith neu astudio, mewn sefyllfaoedd lle gall eich cydweithwyr, eich cyflogwyr, rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth a/neu'r cyhoedd weld eich ymddygiad a gweithredoedd neu eu bod yn effeithio arnynt.

**10.5.4** Rydych yn cydymffurfio gyda gofynion statudol a pholisïau lleol perthnasol, gan ofyn am arweiniad pan mae'r rhain yn aneglur neu'n gwrthdaro gyda'ch barn broffesiynol.

## 10.6 Elw neu fudd personol

**10.6.1** Nid ydych yn derbyn tocynnau tebyg i ffafrau, rhoddion neu letygarwch gan y rhai sydd yn defnyddio'r gwasanaeth, aelodau eu rhwydwaith cymorth neu sefydliadau masnachol pryd y gellid dehongli hyn fel ceisio sicrhau triniaeth ffafriol. Mae'r egwyddor hon yn dal mewn grym o ran budd personol yng nghyswllt practis preifat, lle rhaid peidio derbyn ffafrau, rhoddion neu letygarwch o'r fath er budd personol.

**10.6.2** Rydych yn dilyn polisi lleol bob amser yn achos derbyn rhoddion. Rydych yn datgan unrhyw fecwêdd a wneir gan unigolyn neu eu rhwydwaith cymorth yn unol â pholisi lleol.

**10.6.3** Rydych yn datgan unrhyw wrthdaro buddiannau. Rydych yn rhoi buddiannau'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn gyntaf ac nid ydych yn gadael i'r ddyletswydd yma gael ei dylanwadu gan unrhyw ddiddordeb masnachol neu ddiddordeb arall sy'n gwrthdaro gyda'r ddyletswydd hon, er enghraifft, mewn trefniadau gyda darparwyr masnachol a all ddylanwadu ar gontractio ar gyfer darpariaeth offer, neu ofal a chymorth.

## 10.7 Gwybodaeth a chynrychiolaeth

**10.7.1** Rydych yn sicrhau fod gwybodaeth a/neu hysbysebu mewn unrhyw fformat neu ar unrhyw blatfform yng nghyswllt gweithgareddau proffesiynol neu waith yn gywir. Nid yw'n camarwain, yn annheg nac yn gynyrfiadol ac mae'n cydymffurfio gydag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol.

**10.7.2** Rydych yn cynrychioli yn gywir eich cymwysterau, addysg, profiad, hyfforddiant, gallu a'r gwasanaethau a ddarparwch. Nid ydych yn gwneud honiadau eglur yng nghyswllt rhagoriaeth sgiliau personol, offer neu gyfleusterau.

**10.7.3** Rydych yn parchu hawliau eiddo deallusol eraill bob amser. Nid ydych yn hawlio mai eich gwaith eich hun yw gwaith neu gyflawniadau person arall os nad oes cyfiawnhad llawn am hawlio hynny.

**10.7.4** Dim ond mewn ffordd gywir a gwrthrychol yr ydych yn hysbysebu, hyrwyddo neu argymell cynnyrch neu wasanaeth. Nid ydych yn rhoi gwybodaeth ffafriol neu na fedrir ei chyfiawnhau am gynnyrch neu wasanaeth.

**10.7.5** Os gwyddoch fod posibilrwydd y cafodd y teitl gwarchodedig 'therapydd galwedigaethol' ei gam-gynrychioli, rydych yn codi consyrn gyda'r HCPC.

Adran 11

# Egwyddorion a safonau – Cadw cofnodion o'ch gwaith

Dylid darllen yr adran hon ynghyd â *Standards of conduct, performance and ethics* HCPC (2024a): 10. Keep records of your work.



## 11.1 Cadw cofnodion

**11.1.1** Mae arfer da wrth gadw cofnodion yn gwarchod llesiant y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac yn ffurfio rhan o'ch dyletswydd gofal. Eich cofnodion hefyd yw eich tystiolaeth eich bod wedi cyflawni eich dyletswydd gofal yn eich ymarfer.

**11.1.2** Rydych yn esbonio sut a pham yr ydych yn cofnodi ac yn prosesu gwybodaeth i'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

**11.1.3** Rydych yn creu ac yn cadw cofnod gynhwysfawr o bopeth a gafodd ei wneud ar gyfer/gyda, ar ran, neu yng nghyswllt y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

**11.1.4** Mae eich cofnodion yn gynhwysfawr, cywir a chlir.

**11.1.5** Caiff eich cofnodion eu llenwi'n brydlon, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r gweithgaredd ddigwydd.

**11.1.6** Mae'r holl gofnodion yn ddarllenadwy, dealladwy, wedi eu dyddio'n glir, eu hamseru, yn cael eu cadw mewn trefn gronolegeol ac wedi eu priodoli i'r person sy'n cadw'r gofnod.

**11.1.7** Rydych yn dangos fod eich ymarfer yn briodol drwy gofnodi eich rhesymeg glinigol/broffesiynol.

**11.1.8** Rydych yn dynodi'r dystiolaeth sy'n sylfaen i'ch ymarfer, lle mae ar gael.

**11.1.9** Rydych yn cynnwys eich holl asesiadau risg, camau gweithredu a gymerwyd i reoli'r risg ac unrhyw ganlyniadau.

**11.1.10** Rydych yn deall ac yn gweithredu egwyddorion llywodraethiant data a llywodraethiant gwybodaeth.

**11.1.11** Rydych yn prosesu eich cofnodion yn ôl deddfwriaeth gyfredol, canllawiau a pholisi lleol.

**11.1.12** Os defnyddiwch AI i gefnogi cadw cofnodion, rydych yn adolygu, dilysu a chymryd cyfrifoldeb llawn am bob cynnwys a gynhyrchir gan AI cyn ei ddefnyddio neu ei ddosbarthu. Rydych yn nodi'n glir pan ddefnyddiwyd AI i greu cofnodion, asesiadau, adroddiadau neu gynlluniau ymyriad.

**11.1.13** Rydych yn cydymffurfio gydag unrhyw ofynion cyfreithiol a phrotocolau a pholisïau lleol yng nghyswllt cyfrinachedd, rhannu gwybodaeth a chais unrhyw unigolyn i gael mynediad i'w cofnodion eu hunain.

**11.1.14** Rydych yn cadw eich cofnodion yn ddiogel, gan eu gwarchod rhag mynediad amhriodol, colled a difrod. Rydych yn eu cadw a gwaredu â nhw yn ôl gofynion cyfreithiol a pholisi lleol.

Mae canllawiau ar gadw cofnodion ar gael yn rcot.co.uk.

Adran 12

# Egwyddorion a safonau – Darpariaeth gwasanaeth

Dylid darllen yr adran hon ynghyd â *Standards of proficiency for occupational therapists* HCPC (2023).



## 12.1 Canolbwyntio ar alwedigaeth

**12.1.1** Sylfaen eich ymarfer yw'r gred fod cymryd rhan mewn galwedigaeth (pethau y mae pobl eu heisiau, eu hangen neu y disgwylir iddynt eu gwneud (WFOT 2025)) yn sylfaenol i iechyd a llesiant person.

**12.1.2** Y rhesymeg broffesiynol greiddiol ar gyfer eich ymyriad neu weithgaredd, yn cynnwys mewn gosodiadau amrywiol neu rolau generig, yw hybu iechyd a llesiant drwy hyrwyddo perfformiad galwedigaethol, ymgysylltu a chyfranogiad mewn rolau bywyd (RCOT 2019).

**12.1.3** Rydych yn deall y berthynas rhwng y person, yr alwedigaeth a'r amgylchedd a sut y gall un effeithio, neu gael eu heffeithio, gan y llall.

**12.1.4** Rydych yn galluogi unigolion, grwpiau a chymunedau i newid agweddau o'u person, yr alwedigaeth neu'r amgylchedd, neu ryw gyfuniad ohonynt, i hybu perfformiad galwedigaethol, ymgysylltu a chyfranogiad mewn rolau bywyd.

**12.1.5** Dylai galwedigaeth fod yn flaenllaw yn eich ymarfer. Dylai asesiad, ymyriad, deilliannau a dogfennau ganolbwyntio er berfformiad galwedigaethol, ymgysylltu a chyfranogiad mewn rolau bywyd.

## 12.2 Pwysigrwydd dewis a gofal personoledig

**12.2.1** Mae gennych ddyletswydd barhaus i barchu a chynnal awtonomi'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydych yn annog ac yn galluogi dewis, rhannu gwneud penderfyniadau a gweithio partneriaeth drwy'r broses therapi galwedigaethol, fel sy'n briodol i'w hanghenion a'u dewisiadau.

**12.2.2** Caiff eich ymarfer ei lunio gan ac mae'n canolbwyntio ar anghenion galwedigaethol, dymuniadau, gwerthoedd a dewisiadau'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

**12.2.3** Rydych yn cynnal hawl unigolion a grwpiau i wneud dewisiadau am y cynlluniau y dymunant eu gwneud a'r ymyriad a roddwch.

**12.2.4** Lle'n bosibl, rydych yn defnyddio'r dull cyfathrebu sydd orau gan yr unigolyn, gan optimeiddio eu gallu i gymryd rhan mewn cynllunio a gwneud penderfyniadau drwy unrhyw ddull addas.

**12.2.5** Rydych yn anelu i weithredu er budd gorau pobl i sicrhau eu hiechyd, llesiant a diogelwch gorau. Os caiff dewisiadau unigolyn gyda galluedd meddyliol eu hystyried yn annoeth, maent yn dal i gael eu derbyn fel dewis yr unigolyn.

**12.2.6** Os yw unigolyn gyda galluedd meddyliol yn gwrthod ymyriad, yn penderfynu peidio dilyn y cyfan neu ran o'ch argymhellion neu'n dewis dilyn llwybr gweithredu arall, rydych yn cyflawni eich dyletswydd fel y'i diffinnir yn Adran 10.

## 12.3 Eich rhesymeg broffesiynol

**12.3.1** Mae eich camau gweithredu yn seiliedig ar gyfres o resymau proffesiynol rhesymegol, sydd eu hunain wedi eu seilio ar wybodaeth, sgiliau a phrofiad proffesiynol, ac adnoddau a adolygwyd gan gymheiriaid a gyhoeddwyd.

**12.3.2** Gallwch fyfyrio ar, esbonio a chofnodi eich rhesymeg broffesiynol am unrhyw beth a wnewch ar gyfer/gyda neu yng nghyswllt y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydych yn cofnodi hyn mewn modd priodol.

**12.3.3** Rydych yn defnyddio canllawiau cenedlaethol, polisi cyfredol, ymchwil a'r dystiolaeth orau sydd ar gael i fod yn sylfaen a llywio eich rhesymu, rhesymeg ac ymarfer.

**12.3.4** Caiff eich ymarfer ei lunio gan neu ei strwythuro yn ôl damcaniaethau, egwyddorion, fframweithiau a chysyniadau cydnabyddedig sy'n berthnasol i therapi galwedigaethol.

**12.3.5** Gallwch gyfiawnhau eich penderfyniadau i ddefnyddio neu beidio defnyddio offer AI yn seiliedig ar anghenion y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac yn ymarfer priodoldeb. Rydych yn cadw'r gallu i esbonio eich rhesymeg i'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth, cydweithwyr a rheoleiddwyr.

## 12.4 Mynediad i therapi galwedigaethol

**12.4.1** Mae mynediad i therapi galwedigaethol yn seiliedig ar anghenion galwedigaethol neu ddymuniadau yr unigolyn, grŵp neu gymuned.

**12.4.2** Caiff mynediad ei gynnig yn gyfartal, heb dueddiad na rhagfarn, yn unol â gweithdrefnau a meini prawf a ddogfennwyd yn clir ar gyfer eich gwasanaeth/au.

**12.4.3** Rydych yn ystyried anghenion galwedigaethol posibl y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a budd posibl therapi galwedigaethol, o fewn cylch gorchwyl a chyd-destun eich darpariaeth gwasanaeth neilltuol a lefel a chwmpas eich ymarfer.

**12.4.4** Lle nad oes anghenion galwedigaethol, neu lle mae anghenion na allant gael eu diwallu gennych chi/eich gwasanaeth, rydych yn cyfeirio neu atgyfeirio unigolion i wasanaethau, gwybodaeth a chyngor arall, lle maent ar gael.

**12.4.5** Mae rhai amgylchiadau lle gallwch wrthod rhoi, neu ddewis ddileu, ymyriad. Mae hyn yn cynnwys lle mae ofn trais; lle mae aflonyddu; lle mae diffyg offer addas a diogel; lle nad yw'r wybodaeth a'r sgiliau gennych; lle mae gwrthwynebiad cydwybodol; lle'r ydych yn adnabod yn bersonol y person sy'n defnyddio'r gwasanaeth; lle gofynnir i chi wneud rhywbeth anghyfreithlon; lle credwch y byddai'r ymyriad yn niweidiol i'r person; lle nad oes cyfiawnhad clinigol drosto; neu lle ystyriwch y bu newid mewn amgylchiadau megis nad yw'r ymyriad mwyach yn dod o fewn cydsyniad dilys ac ar sail gwybodaeth.

**12.4.6** Mae gennych yr hawl i wrthod darparu unrhyw ymyriad y credwch a fyddai'n niweidiol i'r person sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu na fyddai cyfiawnhad clinigol drosto, hyd yn oed os oes gweithiwr proffesiynol arall wedi gofyn amdano. Y canllawiau a roddwyd gan y Llys Apêl yn achos R (Burke) v. y Cyngor Meddygol Cyffredinol (Cyfreithiwr Swyddogol ac eraill yn ymyrryd) (2005) yw os na chaiff dull o driniaeth ei ddynodi'n glinigol, nad yw ymarferydd dan unrhyw ddyletswydd gyfreithiol i'w ddarparu, er y dylent ofyn am ail farn. Yn yr un modd, gall meddyg sy'n gyfrifol am ddefnyddiwr gwasanaeth gyfarwyddo therapydd i beidio gwneud rhai mathau o driniaeth os credant y byddai'n niweidiol i'r defnyddiwr gwasanaeth.

## 12.5 Atgyfeiriad/cais am gymorth ac asesiad

**12.5.1** Ar ôl i atgyfeiriad neu gais am gymorth ddod i law a/neu gael ei dderbyn, mae'r gwasanaeth y dyrennir yr achos iddo yn cymryd y cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyfreithiol am unrhyw asesiad ac ymyriad posibl a roddir.

**12.5.2** Os oes rhestr aros ar gyfer eich gwasanaeth, neu fod rheswm arall yn achosi oedi sylweddol cyn i chi gymryd unrhyw gamau gweithredu, rydych yn cysylltu â'r unigolyn a'r sawl sy'n atgyfeirio, gan eu hysbysu am y sefyllfa.

**12.5.3** Drwy gyfweliad, arsylwad a/neu asesiad penodol, rydych yn dynodi ac yn gwerthuso perfformiad galwedigaethol ac anghenion cyfranogiad y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

**12.5.4** Rydych yn defnyddio technegau, dulliau a/neu offer asesu sy'n berthnasol ac addas ar gyfer y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth, eu hanghenion galwedigaethol a'u hamgylchiadau.

**12.5.5** Mae eich asesiad yn gynhwysfawr a sensitif a chaiff ei gofnodi'n briodol.

**12.5.6** Mae eich dadansoddiad o ddeilliannau'r asesiad yn dangos sut mae sefyllfa neu gyflwr presennol y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn effeithio ar eu perfformiad galwedigaethol a'u gallu i gymryd rhan.

**12.5.7** Os, fel canlyniad i'r asesiad, ystyrir fod therapi galwedigaethol yn anaddas ar gyfer y person, rydych yn hysbysu'r unigolyn a'r sawl a atgyfeiriodd, gan roi eich penderfyniad a'ch rhesymeg a chofnodi hynny mewn modd priodol.

**12.5.8** Os dangosir unrhyw asesiadau neu ymchwiliadau pellach, rydych yn cychwyn arnynt neu'n atgyfeirio at wasanaethau eraill.

## 12.6 Ymyriad neu argymhellion

**12.6.1** Rydych yn gweithio mewn partneriaeth gyda rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth, gan gytuno ar eu hamcanion, blaenoriaethau ac amserlenni ar gyfer ymyriad.

**12.6.2** Rydych yn datblygu cynlluniau ymyriad personol, neu argymhellion yn seiliedig ar anghenion perfformiad galwedigaethol, dewisiadau a dymuniadau y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth, fel y'u dynodwyd drwy eich asesiadau.

**12.6.3** Rydych yn ymyrryd cyn gynted ag sy'n bosibl i sicrhau'r deilliannau gorau posibl ac i ostwng, oedi neu atal anghenion y dyfodol lle'n bosibl.

**12.6.4** Rydych yn hyrwyddo llesiant, annog galwedigaethau iach a chymryd rhan mewn rolau bywyd.

**12.6.5** Rydych yn grymuso pobl i gynnal eu hiechyd a'u llesiant eu hunain ac i drin eu hanghenion galwedigaethol eu hunain, lle bynnag sy'n bosibl.

**12.6.6** Gyda chytundeb y sawl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydych yn cynnwys eu gofalwyr a/neu aelodau eu rhwydwaith cymorth, gan eu hysbysu a'u cynnwys wrth wneud penderfyniadau, fel sy'n briodol.

**12.6.7** Er mwyn galluogi gofalwyr a/aelodau eu rhwydwaith cymorth i gymryd rhan, caiff eu gofynion ac anghenion eu hymgorffori yn yr ymyriadau/argymhellion, lle mae angen.

**12.6.8** Os dangosir hynny a gyda chydsyniad, rydych yn atgyfeirio unrhyw ofalwr am asesiad o'u hanghenion eu hunain.

**12.6.9** Rydych yn ystyried sut y gellir defnyddio asedau a chryfderau'r person sy'n defnyddio'r gwasanaeth, eu gofalwyr/teulu a'u cymunedau i gynyddu eu perfformiad galwedigaethol a chyfranogiad i'r eithaf.

**12.6.10** Rydych yn adolygu ac yn addasu eich cynlluniau ac ymyriadau yn rheolaidd mewn partneriaeth gyda'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

**12.6.11** Caiff unrhyw benderfyniad i ddod ag ymyriad i ben ei lywio gan eich gwerthusiad a dewisiadau'r person sy'n defnyddio eich gwasanaeth.

## 12.7 Deilliannau – ansawdd, gwerth ac effeithlonrwydd

**12.7.1** Rydych yn gwerthuso gwerth a budd eich ymyriad ar gyfer y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth o ran eu perfformiad galwedigaethol, cyfranogiad a llesiant.

**12.7.2** Rydych yn defnyddio mesurau deilliant i fonitro, adolygu ac arddangos effeithlonrwydd parhaus eich ymyriad.

**12.7.3** Rydych yn cynnwys y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrth werthuso eich ymarfer. Rydych yn sicrhau y caiff eich gwerthusiad ei lywio gan eu barn a'u profiadau.

**12.7.4** Mae eich gwerthusiad yn rhoi ystyriaeth i wybodaeth a gasglwyd o ffynonellau eraill perthnasol, megis gofalwyr a/neu aelodau rhwydwaith cymorth y person sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu weithwyr proffesiynol eraill.

**12.7.5** Rydych yn cynnal archwiliadau ar y safonau priodol sydd ar gael i hwyluso gwella gwasanaeth.

**12.7.6** Rydych yn ymdrechu i ymwreiddio egwyddorion ymgyfraniad a chyd-gynhyrchu i ddatblygu, cyflenwi a gwerthuso gwasanaeth.

**12.7.7** Rydych yn casglu ac yn cywain data deilliannau i ddiwallu gofynion comisiynwyr/cyllidwyr gwasanaethau.

**12.7.8** Lle'n bosibl, rydych yn casglu a defnyddio data i arddangos gwerth am arian y gwasanaeth/au a ddarparwch. Rydych yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwch, gyda chanllawiau cenedlaethol, lleol a phroffesiynol arall a thystiolaeth ymchwil, i wella ansawdd, gwerth ac effeithlonrwydd y gwasanaeth/au a ddarparwch, gan newid eich ymarfer fel sydd angen.

**12.7.9** Rydych yn datblygu eich ymarfer fel sy'n briodol yng nghyd-destun datblygiadau a thechnolegau newydd.

**12.7.10** Lle'n bosibl, rydych yn cefnogi cynllunio gweithlu effeithlon drwy gael mynediad i, defnyddio a chyfrannu at ddata a gwybodaeth ar gynllunio gweithlu.

## 12.8 Datblygu a defnyddio sylfaen tystiolaeth y proffesiwn

**12.8.1** Rydych yn cydnabod gwerth ymchwil ac arloesedd wrth hybu'r proffesiwn a gwella deilliannau ar gyfer y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

**12.8.2** Rydych yn cydnabod gwerth gwella ansawdd fel dull systematig a seiliedig ar dystiolaeth i ddatrys problemau ac fel fframwaith gadarn ar gyfer rhoi tystiolaeth ymchwil ac arloesedd ar waith gan ysgogi gwybodaeth leol werthfawr.

**12.8.3** Rydych yn ymwneud ag ymchwil, arloesedd a gwella ansawdd ar bob lefel o'ch gyrfa, yn addas ar cwmpas a lefel eich ymarfer.

**12.8.4** Rydych yn anelu i ddynodi'r potensial ar gyfer, ac yn gwerthuso effaith, therapi galwedigaethol mewn meysydd ymarfer newydd ac sy'n datblygu.

**12.8.5** Rydych yn cyrchu a deall ymchwil a'i ddeilliannau a'u gwerthuso yn feirniadol, a'u cynnwys yn eich ymarfer lle'n briodol i ddarparu ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth.

**12.8.6** Rydych yn cynnwys mesurau deilliant seiliedig ar dystiolaeth, gweithgaredd ymchwil, gweithgaredd arloesi a/neu ddulliau gwella ansawdd yn eich ymarfer. Gwnewch hynny er mwyn dangos effeithlonrwydd yr ymyriad a gwasanaethau, gan feintioli'r effaith lle'n bosibl.

**12.8.7** Pan fyddwch yn cynnal unrhyw fath o weithgaredd ymchwil, rydych yn:

- deall egwyddorion ymchwil foesegol ac yn cydymffurfio â gofynion llywodraethiant ymchwil cenedlaethol a lleol
- dilyn prosesau cymeradwyo a chaniatâd moeseg proffesiynol, cenedlaethol a lleol
- gwneud pob ymdrech i gydweithredu gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn ystod pob cam o'r broses ymchwil
- diogelu buddiannau cyfranogwyr
- sefydlu a dilyn gweithdrefnau priodol ar gyfer cael cydsyniad ar sail gwybodaeth, gan roi ystyriaeth ddyladwy i anghenion a galluedd y sawl sy'n cymryd rhan
- diogelu cyfrinachedd cyfranogwyr drwy gydol ac ar ôl y broses ymchwil ac yn cydymffurfio â chyfreithiau diogelu data y Deyrnas Unedig.
- lledaenu eich canfyddiadau ymchwil yn defnyddio dulliau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol priodol.

Mae mwy o wybodaeth ar gael yn ***Advancing occupational therapy: Research and Innovation Strategy 2025-2035 RCOT (2025a).***

## 12.9 Cynaliadwyedd ac adnoddau

**Cynaliadwyedd amgylcheddol:**

**12.9.1** Mae cynaliadwyedd amgylcheddol yn gyfrifoldeb proffesiynol. Mae'r dewisiadau a wnewch yn eich ymarfer yn effeithio ar iechyd a llesiant y cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol. Gall eich ymarfer gyfrannu at atal afiechyd a gostwng y galw ar wasanaethau iechyd a gofal.

**12.9.2** Rydych yn cydnabod unrhyw effaith negyddol sydd gan eich ymarfer ar yr amgylchedd ac yn cymryd camau i ostwng hynny.

**12.9.3** Rydych yn ystyried cynaliadwyedd amgylcheddol yn eich ymarfer bob dydd, yn cynnwys pan fyddwch yn:

- gwneud penderfyniadau am opsiynau ymyriad ac offer
- cynllunio cyflenwi gwasanaeth
- ystyried trafnidiaeth a theithio
- defnyddio ynni ac adnoddau.

**12.9.4** Rydych yn deall y gall atal ac ymyriad cynnar ostwng yr angen am ymyriadau yn nes ymlaen fyddai yn defnyddio mwy o adnoddau, gan fod o fudd i iechyd pobl a hefyd gynaliadwyedd yr amgylchedd.

**12.9.5** Lle'n bosibl, rydych yn dewis opsiynau sy'n effeithiol o ran ynni ac sydd â llai o effaith ar yr amgylchedd, tra'n diwallu anghenion y rhai sydd yn defnyddio eich gwasanaeth.

**12.9.6** Rydych yn nodi ac yn rhoi adroddiad am bryderon amgylcheddol neu gyfleoedd ar gyfer gwella drwy sianeli priodol.

**12.9.7** Fel rheolwr neu arweinydd, rydych yn ystyried cynaliadwyedd yr amgylchedd wrth gynllunio gwasanaeth a gwneud penderfyniadau ac yn cefnogi eich tîm i wneud yr un fath drwy hyrwyddo ymwybyddiaeth ac addysg, er enghraifft drwy sicrhau y caiff cynaliadwyedd o fewn eich maes ymarfer ei gynnwys ar agendâu tîm, fel rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus a phrosiectau myfyrwyr.

Fe'ch cynghorir i ddarllen y canlynol i gael mwy o wybodaeth: World Federation of Occupational Therapists *Sustainability matters: guiding principles for sustainability in occupational therapy practice, education and scholarship* (Shann et al 2018). Care Quality Commission *Assessment framework, Well-led: environmental sustainability – sustainable development* (2025). NHS England *4th Health and climate adaptation report* (2025) a NHS England *Delivering a 'net zero' National Health Service* (2022).

**Rheoli adnoddau a darparu gwasanaeth:**

**12.9.8** Mae gennych gyfrifoldeb am ddefnyddio adnoddau amgylcheddol, corfforol, ariannol, dynol a phersonol yn effeithlon ac effeithiol, gan ddarparu gofal ansawdd uchel a seiliedig ar dystiolaeth i'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

**12.9.9** Rydych yn ceisio sicrhau a rhoi gwerth am arian wrth brynu neu ddarparu nwyddau a gwasanaethau.

**12.9.10** Rydych yn ystyried cynaliadwyedd ac effaith amgylcheddol nwyddau neu wasanaethau yr ydych yn eu prynu, eu darparu neu eu hargymell.

**12.9.11** Lle mae adnoddau'r gwasanaeth yn gyfyngedig, mae unrhyw flaenoriaethau a ddynodir a dewisiadau a wneir yn cydymffurfio gyda gofynion cyfreithiol a pholisi cenedlaethol a/neu leol.

**12.9.12** Wrth sefydlu blaenoriaethau a darparu gwasanaethau, rhoddir ystyriaeth i ddewisiadau'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'u gweithredu lle bynnag sy'n rhesymol bosibl.

**12.9.13** Lle na fedrir diwallu dewis cyntaf person, rydych yn esbonio hyn ac yn cynnig dewis arall, lle mae hynny ar gael. Os nad yw hyn yn bosibl, neu'n annerbyniol, rydych yn atgyfeirio unigolion at neu'n rhoi gwybodaeth ar wahanol ddarparwyr gwasanaeth, ffynonellau cyllid neu opsiynau eraill.

**12.9.14** Rydych yn cydnabod terfynau eich galluedd eich hun ac nid ydych yn ymestyn eich llwyth gwaith na'ch cylch gorchwyl er niwed ansawdd neu ddiogelwch eich ymarfer neu wasanaeth.

**12.9.15** Rydych yn dogfennu, adrodd a rhoi tystiolaeth ar ddiffygion mewn adnoddau a gwasanaeth a all beryglu iechyd a diogelwch y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth, gofalwyr, chi eich hun neu eich cydweithwyr. Dylid dilyn polisi lleol.

**12.9.16** Fel rheolwr neu arweinydd, rydych yn gweithredu ar unrhyw adroddiadau yn ymwneud ag adnoddau a diffygion gwasanaeth, gan geisio sicrhau iechyd a diogelwch pawb y mae eich gwasanaeth yn effeithio arnynt.

Adran 13

# Termau allweddol

Mae RCOT wedi dethol neu ddatblygu'r diffiniadau ac esboniadau hyn i helpu gyda dealltwriaeth o'r ddogfen hon.



| | |
|---|---|
| **Addasiadau rhesymol** | Addasiadau rhesymol yw newidiadau y mae'n rhaid i gyflogwr eu gwneud i sicrhau na chaiff pobl gyda chyflyrau iechyd corfforol neu iechyd meddwl eu rhoi dan anfantais sylweddol pan maent yn gwneud eu swyddi. Gall hyn gynnwys newidiadau ffisegol i'r gweithle, darparu offer, oriau gweithio hyblyg neu wneud pethau'n wahanol i ddarparu ar gyfer anghenion penodol. |
| **Addysgwr ymarfer** | Mae addysgwr ymarfer yn therapydd galwedigaethol sy'n goruchwylio, cefnogi ac asesu dysgwr yn ystod dysgu seiliedig ar ymarfer. Mewn lleoliadau heb therapydd galwedigaethol ar y safle, gall aelod arall o staff roi cefnogaeth, gyda goruchwyliaeth ac asesu penodol therapi galwedigaethol yn cael ei gyflwyno drwy oruchwyliaeth braich hir.<br>*(RCOT 2026a)* |
| **Amgylchedd** | Yr amgylchiadau, gwrthrychau neu amodau sy'n ffurfio amgylchiadau person, y maent yn byw ynddynt ac y maent yn eu profi. Gallai hyn gynnwys amgylcheddau ffisegol, cymdeithasol, cymdeithasegol, diwylliannol neu economaidd. |
| **Amrywiaeth** | Mae amrywiaeth yn golygu adnabod, parchu, gwerthfawrogi a dathlu gwahaniaethau a chroestoriadau mewn anghenion, hunaniaethau, cefndiroedd, profiadau a safbwyntiau. Mae'n allwedd i chwalu rhwystrau diwylliannol a sefydliadol a meithrin diwylliant o greadigrwydd ac arloesi. Defnyddir llawer o ddimensiynau croestoriadol o amrywiaeth i wahaniaethu grwpiau a phobl o'i gilydd, tebyg i wahaniaethau mewn hil ac ethnigrwydd, economaidd-gymdeithasol, cefndiroedd daearyddol a/neu bobl gyda gwahanol farn, credoau crefyddol, credoau gwleidyddol, tueddiadau rhywiol/rhamantus, treftadaeth a phrofiadau bywyd. |
| **Budd gorau** | Mae'r dull gweithredu budd gorau yn gofyn os mai unrhyw lwybr gweithredu arfaethedig yw'r un gorau ar gyfer yr unigolyn, gan roi ystyriaeth i'w:<br>• dymuniadau a theimladau yn y gorffennol a'r presennol;<br>• credoau a gwerthoedd a all fod wedi dylanwadu ar y penderfyniad a wneir, pe byddai gan y person alluedd; a ffactorau eraill y byddai'r unigolyn yn debyg o'u hystyried pe byddai ganddynt alluedd. |
| **Canolbwyntio ar alwedigaeth** | Mae canolbwyntio ar alwedigaeth yn cynnwys dull gweithredu gyda galwedigaeth yn greiddiol iddo. Mae'n cynnwys ymarfer gyda ffocws ar alwedigaeth a seiliedig ar alwedigaeth. |

| | |
|---|---|
| **Croestoriadedd** | Mae croestoriadedd yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio agweddau sy'n rhyngdorri, cydblethu a gorgyffwrdd o hunaniaeth a phrofiad, er enghraifft rhywedd, anabledd, hil, ethnigrwydd, dosbarth cymdeithasol, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd. Mae angen lens croestoriadedd ar gyfer dealltwriaeth fwy cynnil o wahaniaethu ac anfantais; mae croestoriadedd yn cydnabod effaith gronnus bosibl hunaniaethau croestoriadol lluosog a gaiff eu tangynrychioli. |
| **Cwmpas ymarfer** | Eich cwmpas ymarfer yw terfyn eich gwybodaeth, sgiliau a phrofiad ac mae'n cynnwys y gweithgareddau a wnewch o fewn eich rôl broffesiynol. Fel gweithiwr proffesiynol iechyd a gofal, mae'n rhaid i chi gadw o fewn eich cwmpas ymarfer bob amser er mwyn sicrhau eich bod yn ymarfer yn ddiogel, yn gyfreithlon ac yn effeithiol. Mae hyn yn debyg o newid dros amser wrth i'ch gwybodaeth, sgiliau a phrofiad ddatblygu.<br><br>*(RCOT 2025b)* |
| **Cyd-gynhyrchu** | Mae cyd-gynhyrchu yn ddull gweithredu lle mae darparwyr gwasanaeth a rhai gyda phrofiad bywyd o ddefnyddio gwasanaeth yn cydweithio i ddod i ganlyniad ar y cyd. Cafodd ei adeiladu ar egwyddorion cilyddiaeth, parch a phartneriaeth gyfartal. |
| **Cydraddoldeb** | Mae cydraddoldeb yn cyfeirio at ddarparu'r un mynediad, cyfleoedd ac adnoddau i bawb, heb ystyried gwahaniaethau mewn anghenion, hunaniaethau, cefndiroedd, profiadau a safbwyntiau. |
| **Cydsyniad ar sail gwybodaeth** | Mae cydsyniad ar sail gwybodaeth yn gytundeb parhaus gan berson i dderbyn ymyriad, ymgymryd â thriniaethau neu gymryd rhan mewn ymchwil, ar ôl i'r risgiau, buddion a dewisiadau eraill gael eu hesbonio'n ddigonol iddynt. Mae cydsyniad ar sail gwybodaeth yn ofyniad parhaus. Felly, mae'n rhaid i bersonél therapi galwedigaethol sicrhau fod y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn parhau i ddeall yr wybodaeth a roddwyd iddynt, ac unrhyw newidiadau i'r wybodaeth honno, gan felly barhau i gydsynio i'r ymyriad neu ymchwil y maent yn cymryd rhan ynddo.<br><br>Er mwyn i gydsyniad ar sail gwybodaeth gael ei ystyried yn ddilys, mae'n rhaid i'r unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth fod â'r galluedd i ddeall yr wybodaeth a'i defnyddio i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth. Mae'n rhaid i'r cydsyniad gael ei roi'n wirfoddol a bod yn rhydd o ddylanwad gormodol.<br><br>Fel arall gall triniaeth gael ei awdurdodi gan ddirprwy iechyd a llesiant, penderfyniad budd gorau neu gan lys. |
| **Cyfrinachedd** | Mae cyfrinachedd yn golygu diogelu gwybodaeth bersonol. Mae dyletswydd foesegol a chyfreithiol i ddiogelu gwybodaeth bersonol rhag datgeliad amhriodol. Mae rhannu gwybodaeth mewn modd priodol yn rhan hanfodol o ddarpariaeth gofal diogel ac effeithlon. |

| | |
|---|---|
| **Cynghreiriad** | Cynghreiriad yw rhywun sy'n adnabod ac yn defnyddio eu braint i gefnogi pobl a/neu grwpiau sy'n profi anghyfiawnder, gwahaniaethu neu orthrwm. Mae cynghreiriad yn ymroddedig i ddysgu parhaus a hunan-fyfyrio beirniadol i lywio eu gweithredu cyson i herio anghyfiawnder, gwahaniaethu neu orthrwm, a chyfeirir at hynny fel cynghreiriaeth. |
| **Cymhwysedd** | Cymhwysedd yw sicrhau gwybodaeth, sgiliau a galluoedd ar lefel o arbenigedd sy'n ddigonol i fedru perfformio mewn gosodiad gwaith addas. |
| **Cymhwysedd diwylliannol** | Cymhwysedd diwylliannol yw'r set sgiliau, gwybodaeth a gallu i ddeall, cyfathrebu a rhyngweithio gyda phobl ar draws diwylliannau. |
| **Cymhwysedd Gillick** | Fel canlyniad i achos Gillick, yn Lloegr heddiw, heblaw mewn sefyllfaoedd a gaiff eu rheoleiddio fel arall gan y gyfraith, mae'r hawl cyfreithiol i wneud penderfyniad ar unrhyw fater neilltuol yn ymwneud â phlentyn yn symud o'r rhiant i'r plentyn pan ddaw'r plentyn yn ddigon aeddfed i fedru gwneud ei feddwl neu ei meddwl ei hun ar y mater sydd angen penderfyniad.<br>*(Gillick v West Norfolk and Wisbech Area Health Authority 1985)*<br>Mae deddfwriaeth ar wahân yn weithredol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. |
| **Cynaliadwyedd amgylcheddol** | Mae cynaliadwyedd amgylcheddol yn cyfeirio at gadwraeth adnoddau naturiol a gwarchod ecosystemau i gefnogi iechyd a llesiant ar gyfer cenedlaethau cyfredol a hefyd genedlaethau'r dyfodol. Mae ei ffocws ar ddiwallu anghenion y presennol heb ddihysbyddu adnoddau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, gan gynnwys arferion sy'n gwarchod ecosystemau ac yn cynnal cydbwysedd ecolegol. |
| **Cynhwysiant** | Mae cynhwysiant yn hawl dynol cyffredinol. Nod cynhwysiant yw croesawu a gwerthfawrogi amrywiaeth pawb yn gyfartal, ar draws pob agwedd o fywyd. Mae ynglŷn â rhoi mynediad a chyfleoedd cyfartal, a dileu rhwystrau. Mae hefyd ynglŷn â rhoi parch, a chael gwared â gwahaniaethau ac anoddefgarwch. |
| **Cynnal/ cynaliadwy** | Mae gofal iechyd cynaliadwy yn cyfuno tair ffactor allweddol: gofal ansawdd uchel i gleifion, cyllidebu ariannol gyfrifol a lleihau effaith ar yr amgylchedd.<br>*(Jameton a McGuire 2003, cyfieithiad)* |

| | |
|---|---|
| **Chwythu'r chwiban** | Chwythu'r chwiban yw lle mae gweithiwr (cyflogai, cyn gyflogai, hyfforddai, gweithiwr asiantaeth neu aelod o sefydliad yn rhoi adroddiad am gamweithredu er budd y cyhoedd.<br>*(HCPC 2019, t1, cyfieithiad)* |
| **Datblygiad Proffesiynol Parhaus** | Y ffordd y mae unigolyn yn parhau i ddysgu a datblygu drwy gydol eu gyrfa, yn cynnwys yn ystod eu rhaglen cyn-cofrestru. Mae Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn hanfodol ac yn esblygu sgiliau, gwybodaeth, hunaniaeth broffesiynol ac ymddygiad proffesiynol fel bod unigolion yn aros yn gyfredol ac ymarfer yn ddiogel ac yn effeithlon. |
| **Deallusrwydd artiffisial (AI)** | Mae deallusrwydd artiffisial yn derm ar gyfer ystod o dechnolegau seiliedig ar algorithm sy'n datrys tasgau cymhleth drwy gyflawni swyddogaethau oedd yn flaenorol angen meddwl dynol. Mae penderfyniadau a wneir yn defnyddio AI naill ai wedi eu hawtomeiddio yn llwyr neu yn cynnwys person 'yn y ddolen'. Fel gydag unrhyw fath arall o wneud penderfyniadau, dylai'r rhai y mae penderfyniad a gefnogir gan AI yn effeithio arnynt fedru dal rhywun yn atebol amdano.<br>*(Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth  2025, cyfieithiad)* |
| **Didwylledd (dyletswydd i fod)** | Mae dweud wrth gleifion yn agored ac onest fod rhywbeth wedi mynd o'i le gyda'u gofal yn rhan hanfodol o ymarfer gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Caiff y cyfrifoldeb i wneud hynny ei alw yn ddyletswydd broffesiynol didwylledd.<br>*(Awdurdod Safonau Proffesiynol Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2019, Adran 1.1, cyfeithiad)* |
| **Diogelu data** | Diogelu data yw defnydd teg a thryloyw o wybodaeth, gan sicrhau y caiff data pobl ei drin yn ddiogel ac mewn ffyrdd sy'n parchu eu hawliau ac yn cynnal ymddiriedaeth rhwng unigolion a sefydliadau. |
| **Dirprwyo** | Rhoi aseiniad i berson arall, neu aseinio tasg i berson arall, i'w gyflawni ar ran rhywun, tra'n cadw rheolaeth a chyfrifoldeb. |
| **Diwylliant** | Mae diwylliant yn system o gredoau, gwerthoedd, agweddau a thybiaethau am fywyd sy'n llywio ymddygiad ac a gaiff eu rhannu gan grŵp o bobl. |

| | |
|---|---|
| **Dyletswydd gofal** | Cyfrifoldeb i weithredu mewn ffordd sy'n sicrhau na chaiff anaf, colled neu niwed ei achosi yn ddiofal neu'n fwriadol i'r unigolyn neu gorff y mae'r ddyletswydd iddynt, fel canlyniad i berfformio'r gweithredoedd hynny.<br><br>Mae dyletswydd gofal yn codi:<br>• lle mae perthynas digon agos rhwng dau barti (e.e. dau unigolyn, neu unigolyn a sefydliad). Mae perthynas o'r fath yn bodoli rhwng defnyddiwr gwasanaeth a'r aelod o weithlu therapi galwedigaethol y cafodd ef neu hi ei atgyfeirio atynt, tra bod y bennod gofal yn mynd rhagddi.<br>• lle medrir rhagweld y gall gweithgareddau un parti achosi niwed i'r llall.<br>• lle mae'n deg, cyfiawn a rhesymol yn yr holl amgylchiadau i osod dyletswydd o'r fath.<br><br>*(Caparo Industries Plc v Dickman 1990)* |
| **Dysgwr** | Mae dysgwr yn unigolyn sydd wedi ymrestru ar raglen therapi galwedigaethol. Gall dysgwyr hefyd gael eu galw'n "fyfyrwyr" neu, yn achos rhaglenni prentisiaeth cyn-cofrestru, "prentisiaid".'<br>*(RCOT 2026a)* |
| **Dysgu gydol oes** | Cyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol sy'n galluogi unigolion i barhau i ddatblygu a gwella'r wybodaeth a'r sgiliau maent eu hangen ar gyfer cyflogaeth a chyflawniad personol.<br><br>*(Gweithgor Rhyngbroffesiynol y DU ar Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus a Dysgu Gydol Oes 2022, cyfieithiad)* |
| **Dysgu seiliedig ar ymarfer** | Mae dysgu seiliedig ar ymarfer yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr integreiddio gwybodaeth darparwyr addysg mewn lleoliadau go iawn, gan bontio'r bwlch rhwng theori ac ymarfer. Mae'r profiadau hyn yn fwy na dim ond am weithredu sgiliau, maent yn llunio hunaniaeth broffesiynol, eithrin hyder a chadarnhau dewis gyrfa.<br><br>*(RCOT 2026a)* |
| **Ffin broffesiynol** | Ffin broffesiynol yw'r llinell rhwng ymddygiad derbyniol ac annerbyniol ar gyfer ymarferydd sy'n rhan o broffesiwn neu'n cynrychioli proffesiwn. |
| **Ffocws ar alwedigaeth** | Mae ffocws ar alwedigaeth yn disgrifio ymarfer lle mae cysylltiad agos rhwng gwybodaeth am y person, amgylchedd a galwedigaeth â pherfformiad galwedigaethol.. |
| **Ffordd o feddwl** | Ffordd o feddwl neu ymagwedd sy'n rhag-benderfynu eich dehongliad o wybodaeth a sefyllfaoedd, eich ymateb iddynt a'ch ymddygiad neu gynnwys. |

| | |
|---|---|
| **Galluedd** | Y gallu i wneud rhywbeth. Cam tu hwnt i gymhwysedd; gall ymarferwyr galluog drin newid a llunio datrysiadau mewn sefyllfaoedd cymhleth.<br><br>*(McGee ac Inman 2019, t.14, cyfieithiad)* |
| **Galwedigaethau iach** | Gweithgareddau sy'n annog a datblygu iechyd a llesiant, neu'n gostwng y risg o anaf neu glefyd. |
| **Galluedd meddwl (diffyg)** | Mae 'galluedd meddyliol' yn golygu medru gwneud eich penderfyniadau eich hun.<br><br>Ni all rhywun gyda diffyg galluedd meddyliol – oherwydd salwch neu anabledd tebyg i broblem iechyd meddwl, dementia neu anabledd dysgu – wneud un neu fwy o'r pedwar peth dilynol:<br>• Deall gwybodaeth a roddir iddynt am benderfyniad neilltuol<br>• Cadw'r wybodaeth honno yn ddigon hir i fedru gwneud y penderfyniad<br>• Pwyso a mesur yr wybodaeth sydd ar gael i wneud y penderfyniad<br>• Cyfathrebu eu penderfyniad.<br><br>*(Sefydliad Iechyd Meddwl 2019, cyfieithiad)*<br><br>Gall galluedd meddyliol, neu ddiffyg hynny, fod dros gyfnod cyfyngedig ac yn benodol i gyd-destun. Dylid ystyried y gall fod yn bosibl esbonio'r risgiau a buddion drwy ddull arall neu gyda chymorth aelodau o'r teulu sydd â phrofiad o gyfathrebu gyda'r unigolyn dan sylw. |
| **Galwedigaethau** | Mewn therapi galwedigaethol, mae galwedigaethau yn cyfeirio at y gweithgareddau bob dydd a wnaiff pobl fel unigolion, mewn teuluoedd a gyda chymunedau i lenwi amser a dod ag ystyr a diben i fywyd. Mae galwedigaethau yn cynnwys pethau yr ydym angen eu gwneud, eisiau eu gwneud neu orfod eu gwneud.<br><br>*(WFOT 2025, cyfieithiad)* |
| **Gofal wedi ei bersonoli** | Mae dull gofal wedi ei bersonoli at iechyd a gofal yn sicrhau fod pobl yn rheoli ac yn cael dewisiadau am y ffordd y caiff eu hanghenion eu trin, cynllunio a'u darparu. Mae'r dull hwn yn seiliedig ar gryfderau pobl a'r hyn sy'n bwysig iddynt. Mae'n sicrhau fod unigolion yn cymryd rhan ragweithiol, nid dim ond derbyn yn oddefol, y cymorth a dderbyniant. |
| **Gofalwr** | Rhywun sy'n darparu (neu sy'n bwriadu darparu), gan dderbyn tâl neu heb dderbyn tâl, swm sylweddol o ofal ar sail reolaidd ar gyfer rhywun o unrhyw oedran sy'n wael, neu na all, am ba bynnag reswm, ofalu amdanynt eu hunain yn annibynnol.<br><br>Caiff hyn weithiau ei rannu yn ofalwyr ffurfiol (gweithwyr gofal) sy'n derbyn tâl am roi gofal, a gofalwyr anffurfiol (yn aml aelodau teulu) nad ydynt yn derbyn tâl am ddarparu gofal. |

| | |
|---|---|
| **Goruchwyliaeth** | Perthynas broffesiynol a gweithgaredd sy'n sicrhau safonau da o ymarfer ac yn annog datblygu.<br>*(Coleg Therapyddion Galwedigaethol 2015, t1, cyfieithiad)* |
| **Gosodiadau amrywiol** | Gosodiadau neu rolau nad yw therapyddion galwedigaethol wedi gweithio ynddynt yn draddodiadol. |
| **Gwahaniaethu** | Gwahaniaethu yw trin person, neu grŵp neilltuol o bobl a/neu gymunedau o bobl yn anghyfiawn, annheg neu ragfarnol mewn ymateb i nodweddion o wahanol anghenion, hunaniaethau, cefndiroedd a phrofiadau. Yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010, gall gwahaniaethu fod yn gynnil neu agored a bod ar sawl ffurf yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i, wahaniaethu uniongyrchol, gwahaniaethu anuniongyrchol, aflonyddu ac erledigaeth. |
| **Gwasanaeth** | O fewn cyd-destun y ddogfen hon, mae'r term 'gwasanaeth' fel arfer yn cyfeirio at y therapi galwedigaethol a ddarparwch fel unigolyn neu grŵp, yn hytrach na chyfeirio at adran neu gyfadran therapi galwedigaethol. |
| **Gweithlu therapi galwedigaethol** | Ar gyfer dibenion y ddogfen hon mae hwn yn derm torfol sy'n cynnwys therapyddion galwedigaethol, gweithwyr cymorth a dysgwyr therapi galwedigaethol, yn cynnwys myfyrwyr a phrentisiaid. Mae'n berthnasol i ymarferwyr ym mhob rôl, yn cynnwys rhai sydd yn rheoli ac yn arwain, addysg, ymchwil, ymgynghoriaeth a rolau cynghori, a gweithio mewn diwydiant. |
| **Gwrth-hiliaeth** | Mae gwrth-hiliaeth yn ymroddiad i weithio yn erbyn anghyfiawnder a gwahaniaethu hiliol. Mae gwrth-hiliaeth yn cynnwys camau gweithredu i ddynodi a gwrthwynebu hiliaeth ac yn ymwybodol ac yn fwriadol weithio i herio a newid strwythurau, polisïau, prosesau a chredoau sy'n parhau, wedi parhau neu sydd mewn risg o barhau hiliaeth, mewn unrhyw a phob ffurf. |
| **Hawliau Dynol** | Hawliau dynol yw'r hawliau a rhyddid sylfaenol sydd gan bob person yn y byd o'u genedigaeth tan eu marwolaeth. Maent yn weithredol ble bynnag yr ydych yn dod ohono, yr hyn a gredwch neu sut y dewiswch fyw eich bywyd. Ni allant byth gael eu tynnu ymaith, er y gallant weithiau gael eu cyfyngu – er enghraifft os yw person yn torri'r gyfraith, neu er budd diogelwch cenedlaethol.<br>Mae'r hawliau sylfaenol hyn yn seiliedig ar werthoedd a gaiff eu rhannu fel urddas, tegwch, cydraddoldeb, parch ac annibyniaeth. Caiff y gwerthoedd hyn eu diffinio a'u diogelu gan y gyfraith.<br>Ym Mhrydain caiff ein hawliau dynol eu diogelu gan Ddeddf Hawliau Dynol 1988.<br>*(Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2019, cyfieithiad)* |

| | |
|---|---|
| **Llywodraethiant** | Mae llywodraethiant yn cwmpasu'r system y caiff sefydliad ei rheoli ganddi ac mae'n gweithredu ynddi, a'r mecanweithiau y caiff hi, a'i phobl, eu dal i gyfrif ganddi. Mae moeseg, rheoli risg, cydymffurfiaeth a gweinyddiaeth i gyd yn elfennau o lywodraethiant.<br>*(Sefydliad Llywodraethiant Awstralia 2020, cyfieithiad)* |
| **Mesurau deilliant** | Mae mesurau deilliant yn offerynnau safonol, yn cynnwys asesiadau safonedig, a ddefnyddir gan therapyddion i sefydlu os cafodd y deilliannau therapiwtig a ddymunent o ymyriadau eu cyflawni. |
| **Moeseg** | Egwyddorion a gwerthoedd sy'n llywodraethu rhesymeg, gweithredoedd ac ymddygiad person neu grŵp, yn yr achos hwn o fewn proffesiwn. Mae'r rhain yn aml yn ymwneud â chredoau am yr hyn sy'n foesol gywir ac yn anghywir. |
| **Moesegol** | Ansawdd neu statws sy'n disgrifio rhesymau, gweithredoedd ac ymddygiad person, grŵp (neu sefydliad) fel bod yn gywir yn yr ystyr foesol. |
| **Nodweddion gwarchodedig** | Nodweddion gwarchodedig yw naw agwedd benodol hunaniaeth person fel y cânt eu diffinio a'u diogelu rhag gwahaniaethu gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Dan y Ddeddf, y rhain yw: 'oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gredo, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol'.<br>*(Senedd Prydain Fawr 2010)* |
| **Perfformiad galwedigaethol** | Gallu person i wneud y gweithgareddau a rolau y mae angen iddynt eu gwneud, neu y dymunant eu gwneud neu y disgwylir iddynt eu gwneud yn eu bywyd bob dydd. |
| **Perthyn** | Perthyn yw'r teimlad o wir gael eich cydnabod, eich parchu, eich gwerthfawrogi a bod yn rhydd i fod ein hunain go iawn. Rydym yn creu hynny drwy fod yn rhagweithiol wrth groesawu, dathlu, cefnogi a grymuso pob llais. |
| **Perthynas bersonol** | Perthynas sy'n bodoli am resymau cymdeithasol neu emosiynol. Gall hyn fod gyda chydweithiwr neu gall ddatblygu gyda pherson sy'n defnyddio'r gwasanaeth. |
| **Perthynas broffesiynol** | Perthynas ffurfiol sy'n bodoli ar gyfer diben cynnal eich rôl, gyda ffiniau yn cael eu llywodraethu gan bolisïau, gweithdrefnau a ffyrdd o weithio a gytunwyd. |

| | |
|---|---|
| **Profiad bywyd** | Mae profiad bywyd yn wybodaeth, dealltwriaeth a safbwynt unigol a gafwyd drwy ymgyfraniad a/neu brofiad uniongyrchol; drwy fyw a chael profiad personol o nodweddion neu amgylchiadau penodol. |
| **Pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth** | Caiff y term 'pobl (neu'r rhai) sy'n defnyddio'r gwasanaeth' ei ddefnyddio ar gyfer y rhai yr ydych yn darparu ymyriad iddynt. Gall hyn fod yn unigolion, teuluoedd a gofalwyr, grŵp neu gymuned. |
| **Rôl neu ymarfer generig** | Gall rôl generig gynnwys neu ymarfer cyfuno tasgau a wnaed yn flaenorol gan wahanol broffesiynau. Gallai hyn fod yn rhan neu'r cyfan o rôl. Er enghraifft, darparu cefnogaeth rheoli ar draws ystod o grwpiau proffesiynol, neu gynnal ystod o wiriadau iechyd o fewn y gymuned. |
| **Rhagfarn ddiarwybod** | Mae rhagfarn ddiarwybod yn farn a chysylltiadau sydd gennym i gyd, tu hwnt i'n hymwybyddiaeth wybyddus. Hwy yw ein canfyddiadau sylfaenol ein hunain ac efallai ystadegau a adeiladwyd yn fewnol am wahanol grwpiau cymdeithasol a hunaniaeth a all effeithio ar ein agweddau a'n hymddygiad heb i ni sylweddoli hynny. |
| **Rhagfarn systemig** | Mae rhagfarn systemig yn cyfeirio at ddulliau o ragfarn neu wahaniaethu sydd â gwreiddiau dwfn sy'n bodoli o fewn fframweithiau cymdeithas a systemau sefydliadol, gan arwain at driniaeth annheg a gwahaniaethau ar gyfer grwpiau o bobl. |
| **Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)** | Yn y Deyrnas Unedig, caiff diogelu data ei lywodraethu gan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR), y Ddeddf Diogelu Data (2018) a Deddf Data (Defnydd a Mynediad) (2025). Mae deddfwriaeth diogelu data yn rheoli sut y mae sefydliadau, yn cynnwys busnesau ac adrannau'r llywodraeth, yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol. |
| **Rhesymeg broffesiynol** | Y sail ar gyfer eich llwybr gweithredu, yn seiliedig ar eich rhesymu proffesiynol |
| **Rhesymeg broffesiynol (clinigol)** | Y broses a ddefnyddir gan ymarferwyr i gynllunio, cyfeirio, perfformio ac adlewyrchu ar ofal cleientiaid. *(Schell et al 2014, cyfieithiad)* |
| **Rhesymol** | Safon wrthrychol. Mae rhywbeth (e.e. gweithred neu benderfyniad) yn rhesymol os yw'r weithred neu benderfyniad yn un y byddai sylwedydd gwybodus hefyd yn ei wneud. |

| | |
|---|---|
| **Rhwydwaith cymorth** | Mae rhwydwaith cymorth yn cyfeirio at bobl ddi-dâl sy'n rhoi help neu ofalu am y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth, yn cynnwys aelodau teulu, cyfeillion a gofalwyr anffurfiol. Nid yw hyn yn cynnwys darparwyr gofal proffesiynol sy'n derbyn tâl. |
| **Technoleg ddigidol** | Technolegau digidol yw offer, systemau, dyfeisiau ac adnoddau electronig sy'n cynhyrchu, storio neu brosesu data. |
| **Tegwch** | Mae tegwch yn cydnabod gwahaniaethau a chymhlethdod mewn amgylchiadau, profiadau ac anghenion. Mae'n golygu trin pobl yn wahanol i sicrhau tegwch drwy fod yn hyblyg ac ymateb i fynediad, cyfleoedd ac adnoddau. Yn yr un modd â therapi galwedigaethol, mae tegwch am ddeall a chydnabod anghenion unigol, mae'n ymwneud â phawb yn cael yr hyn maent ei angen i wneud y gorau o fywyd. |
| **Trosglwyddo** | Rhoi neu ymddiried cyfrifoldeb am unigolyn i rywun arall. Caiff y weithred o drosglwyddo ei chwblhau pan mae'r person sy'n derbyn yn cydnabod ac yn derbyn rheolaeth a chyfrifoldeb.<br><br>Ni ddylid cymysgu hyn gyda rôl ymarferydd mewn trosglwyddo ward/achos, lle gallant adrodd gwybodaeth i staff eraill ond dal i gadw cyfrifoldeb am y therapi galwedigaethol a ddarperir i'r unigolyn. |
| **Ymarfer gydag awtonomi** | Yn elfen sylfaenol o *Standards of proficiency for occupational therapists* HCPC (HCPC 2023), ymarfer gydag awtonomi yw'r gallu i asesu sefyllfa broffesiynol a'i thrin mewn ffordd briodol gyda'r wybodaeth a phrofiad perthnasol o therapi galwedigaethol. Mae hefyd yn cynnwys y gallu i wneud penderfyniadau gyda rhesymau drostynt, i fedru cyfiawnhau'r penderfyniadau hyn a derbyn cyfrifoldeb personol am bob gweithred. |
| **Ymarferydd** | Ar gyfer dibenion y ddogfen hon, defnyddiwyd y term 'ymarferydd' i'ch dynodi chi fel yr unigolyn gweithredol, lle bynnag yr ydych yn gweithio a beth bynnag yw cwmpas a lefel eich ymarfer o fewn y gweithlu therapi galwedigaethol. |
| **Ymyriad** | Y gwaith a wnewch ar gyfer a gydag unigolion/grwpiau, a allai gynnwys darparu gwasanaethau tebyg i ofal a chymorth, gwybodaeth, argymhellion neu gyngor, cyfeiriad, goruchwyliaeth ac addysg. |

## Adran 14

# Deddfwriaeth, polisïau a safonau – Pynciau allweddol

**Disgwylir i chi fod yn gyfarwydd ag unrhyw ddeddfwriaeth a pholisïau cyfredol, safonau arfer gorau a pholisïau a gweithdrefnau sy'n berthnasol i'ch cwmpas, lefel a lleoliad ymarfer a chydymffurfio â nhw. Nid yw'r ddogfen hon yn dynodi pob darn o ddeddfwriaeth berthnasol, gan gydnabod fod llawer o wahaniaethau ar draws pedair cenedl y Deyrnas Unedig.**

Mae'r meysydd deddfwriaeth a chanllawiau sy'n berthnasol i'r ddogfen hon yn cynnwys:

Adrodd a datgeliad

Bwlio

Cadw cofnodion

Cydraddoldeb

Cydsyniad

Cydsyniad ar gyfer plentyn dan 16 oed (cymhwysedd Gillick)

Cyfrinachedd – diogelu a rhannu data, mynediad i gofnodion/rhyddid gwybodaeth

Cynaliadwyedd

Chwythu'r chwiban

Didwylledd

Diogelu a rhannu data, mynediad i gofnodion/rhyddid gwybodaeth

Diogelu pobl fregus

Dyletswydd gofal

Esgeulustod (prawf Bolam)

Gofal cymdeithasol

Gofal iechyd

Gwahaniaethu

Hawliau dynol

Iechyd a diogelwch/arfer gwaith diogel

Iechyd meddwl a galluedd meddyliol

Llywodraethiant glinigol

Risg

Troseddu rhywiol

# Cyfeiriadau


Cyrchwyd pob gwefan ar 24.02.2026

*Bolam v. Friern Hospital Management Committee* [1957] 1 WLR 582.

*Bolitho v City and Hackney Health Authority* [1998] AC 232 (HL).

Broughton W, Harris G gol, Interprofessional CPD and Lifelong Learning UK Working Group (2022) *Principles for continuing professional development and lifelong learning in health and social care.* Bridgwater: College of Paramedics. Ar gael yn: **https://www.bda.uk.com/asset/3C0A3258-B2FF-4802-957BD61120903E8A/**

*Caparo Industries* Plc v Dickman [1990] 2 AC 605 (HL).

Care Quality Commission (2025) *Assessment framework, Well-led: Environmental sustainability – sustainable development*. Llundain: CQC. Ar gael yn: **https://www.cqc.org.uk/guidance-regulation/providers/assessment/single-assessment-framework/well-led/environmental-sustainability**

Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (RCOT) (2026a) *Learning and development standards for pre-registration education*. Llundain: RCOT. Ar gael yn: **https://www.rcot.co.uk/explore-resources/standards-guidelines/learning-development-standards**

Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (RCOT) (2026b) *From education to practice: Early career principles and standards for occupational therapists*. Llundain: RCOT. Ar gael yn: **https://www.rcot.co.uk/explore-resources/standards-guidelines/early-career-principles-and-standards-occupational-therapists**

Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (RCOT) (2025a) *Advancing occupational therapy: Research and Innovation Strategy 2025-2035*. Llundain: RCOT. Ar gael yn: **https://www.rcot.co.uk/media/1888/download?attachment**

Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (RCOT) (2025b) *Scope of occupational therapy practice*. (RCOT Briefing). Llundain: RCOT. Ar gael yn: **https://www.rcot.co.uk/explore-resources/ot-topics/scope-practice**

Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (RCOT) (2024a) *Equity, diversity and belonging strategy 2024–2027*. Llundain: RCOT. Ar gael yn: **https://www.rcot.co.uk/media/565/download?attachment**

Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (RCOT) (2021) *Career development framework: guiding principles for occupational therapy*. 2il rifyn. Llundain: RCOT. Ar gael yn: **https://www.rcot.co.uk/media/565/download?attachment**

Coleg y Therapyddion Galwedigaethol (2015) *Supervision: guidance for occupational therapists and their managers*. Llundain: COT. Ar gael yn: **https://www.rcot.co.uk/sites/default/files/ Supervision.pdf**

Equality and Human Rights Commission (2019) *What are human rights?* Llundain: Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Ar gael yn: **https://www.equalityhumanrights.com/en/human-rights/what-are-human-rights**

*Gillick v West Norfolk and Wisbech Area Health Authority* [1985] AC 112 (HL).

Governance Institute of Australia (2020) *What is governance?* Sydney: Governance Institute of Australia. Ar gael yn: **https://www.governanceinstitute.com.au/resources/what-is-governance/**

Health and Care Professions Council (2025a). *Consent principles*. Llundain: HCPC. Ar gael yn: **https://www.hcpc-uk.org/standards/meeting-our-standards/person-centred-care/consent-principles/**

Health and Care Professions Council (2025b) *Threshold policy for fitness to practise investigations.* Llundain: HCPC. Ar gael yn: **https://www.hcpc-uk.org/resources/policy/threshold-policy-for-fitness-to-practise-investigations**

Health and Care Professions Council (2024a) *Standards of conduct, performance and ethics.* Llundain: HCPC. Ar gael yn: **https://www.hcpc-uk.org/standards/standards-of-conduct-performance-and-ethics/**

Health and Care Professions Council (2024b) *Information for registrants: guidance on social media.* Llundain: HCPC. Ar gael yn: **https://www.hcpc-uk.org/globalassets/resources/guidance/guidance-on-social-media.pdf**

Health and Care Professions Council (diweddarwyd 2024c) *Guidance on health and character.* Llundain: HCPC. Ar gael yn: **https://www.hcpc-uk.org/globalassets/resources/guidance/guidance-on-health-and-character-for-applicants-and-registrants.pdf**

Health and Care Professions Council (2023) *Standards of proficiency: occupational therapists.* Llundain: HCPC. Ar gael yn: **https://www.hcpc-uk.org/standards/standards-of-proficiency/occupational-therapists/**

Health and Care Professions Council (2019) *Raising a concern: guidance for whistleblowers.* Llundain: HCPC. Ar gael yn: **https://www.hcpc-uk.org/resources/policy/guidance-for-whistleblowers/**

Health and Care Professions Council (HCPC) (2017) *Standards of continuing professional development.* London: HCPC. Ar gael yn: **https://www.hcpc-uk.org/standards/standards-of-continuing-professional-development**

Information Commissioner's Office (2025) *Explaining decisions made with AI.* Wilmslow: ICO. Ar gael yn: **https://ico.org.uk/for-organisations/uk-gdpr-guidance-and-resources/artificial-intelligence/explaining-decisions-made-with-artificial-intelligence/**

Jameton A, McGuire C (2002) Towards sustainable health-care services: principles, challenges, and a process. *International Journal of Sustainability in Higher Education, 3(2)*, 113–127.

McGee P, Inman C gol (2019) *Advanced practice in healthcare: dynamic developments in nursing and allied health professions.* 4ydd rhifyn. Hoboken, NJ: Wiley Blackwell.

Mental Health Foundation (2019) *Mental capacity.* Llundain: Mental Health Foundation. Ar gael yn: **https://www.mentalhealth.org.uk/explore-mental-health/a-z-topics/mental-capacity**

National Data Guardian (2020) *The Caldicott Principles.* Llundain: NDG. Ar gael yn: **https://www.gov.uk/government/publications/the-caldicott-principles**

NHS England (2025) 4th Health and climate adaptation report. Llundain: NHS England. Ar gael yn: **https://www.england.nhs.uk/long-read/4th-health-and-climate-adaptation-report/**

NHS England (2022) *Delivering a 'net zero' National Health Service.* Llundain: NHS England. Ar gael yn: **https://www.england.nhs.uk/greenernhs/wp-content/uploads/sites/51/2022/07/B1728-delivering-a-net-zero-nhs-july-2022.pdf**

Professional Standards Authority for Health and Social Care (2019) *Telling patients the truth when something goes wrong: evaluating the progress of professional regulators in embedding professionals' duty to be candid to patients.* Llundain: PSAHSC. Ar gael yn: **https://www.professionalstandards.org.uk/sites/default/files/attachments/telling-patients-the-truth-when-something-goes-wrong---how-have-professional-regulators-encouraged-professionals-to-be-candid-to-patients.pdf**

Prydain Fawr. Senedd (2025) *Deddf Data (Mynediad a Defnydd) 2025.* Llundain: Y Llyfrfa. Ar gael yn: **https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2025/18/contents**

Prydain Fawr. Senedd (2018) *Deddf Diogelu Data 2018.* Llundain: Y Llyfrfa. Ar gael yn: https://**www.legislation.gov.uk/ukpga/2018/12/contents/enacted**

Prydain Fawr. Senedd (2010) Deddf Cydraddoldeb 2010. Llundain: Y Llyfrfa. Ar gael yn: **https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents**

*R (Burke) v General Medical Council (Official Solicitor and others intervening) [2005] EWCA Civ 1003, [2006] QB 273.*

Schell BAB, Scaffa ME, Gillen G (2014) *Willard and Spackman's occupational therapy.* Philadelphia, PA: Lippincott Williams a Wilkins.

Shann S, Ikiugu MN, Whittaker B, Pollard N, Kåhlin I, Hudson M...Townsend E (2018) *Sustainability matters: guiding principles for sustainability in occupational therapy practice, education and scholarship.* [s.l.]: World Federation of Occupational Therapists. Ar gael yn: **https://wfot.org/resources/wfot-sustainability-guiding-principles**

World Federation of Occupational Therapists (2025) *About occupational therapy.* [s.l.]: WFOT. Ar gael yn **https://www.wfot.org/about/about-occupational-therapy**

Coleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol

# Safonau proffesiynol ymarfer, ymddygiad a moeseg ar gyfer therapi galwedigaethol

*Cafodd y Safonau proffesiynol ymarfer, ymddygiad a moeseg ar gyfer therapi galwedigaethol* eu cynhyrchu gan Goleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (RCOT) mewn ymgynghoriad ac ar y cyd gyda'i aelodau. Maent yn disgrifio'r ymarfer, ymddygiad a gwerthoedd hanfodol y mae'n gyfrifoldeb ar aelodau RCOT i gydymffurfio â hwy bob amser. Bydd cynnal y safonau hyn yn helpu therapyddion galwedigaethol i fod yn ymarferwyr diogel, effeithlon a moesegol, gan ddarparu gwasanaeth ansawdd uchel, seiliedig ar dystiolaeth a chynhwysol. Gellir eu cymryd fel safonau priodol o ofal rhesymol, fel y'u diffiniwyd gan y corff proffesiynol, y gellir cyfeirio atynt gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC), corff rheoleiddiol therapyddion galwedigaethol.

Caiff y cyhoeddiad hwn ei adolygu bob pum mlynedd ac mae'n fan cyfeirio defnyddiol ar gyfer aelodau o'r cyhoedd, sefydliadau cyflogi ac eraill sydd angen iddynt wybod am ddisgwyliadau'r corff proffesiynol.



rcot.co.uk

© 2026 Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (Rhif 275119) ac yn yr Alban (Rhif SCO39573) a chwmni a gofrestrwyd yn Lloegr (Rhif 1347374)